

Llety i Blant Digartref 16 ac 17 oed yn Gweithio gyda Thimau
Troseddau Ieuencid
Arolygiad Thematig ar y Cyd

Awst 2016

© Hawlfraint y Goron 2016

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r awdurdodau lleol hynny a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn (Enfield, Kirklees, Norfolk, Hartlepool, Blaenau Gwent a Chaerffili a Bro Morgannwg), a Dwyrain Riding Swydd Efrog am gymorth gyda'r cynllun peilot ac Awdurdod Lleol Swydd Nottingham am eu cyfraniad ar wahân.

Arolygydd Arweiniol	Jane Attwood, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
Dirprwy Arolygydd Arweiniol	Helen Davies, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
Tîm Arolygu	Sheila Booth, <i>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru</i> Mary Candlin, AEM Gofal Cymdeithasol; <i>Ofsted</i> Adam Harvey, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Sam Lewis, <i>Llamau (arolygodd yn Lloegr yn unig)</i> Mark Scott, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Ian Young, AEM Gofal Cymdeithasol; <i>Ofsted</i>
Gwasanaethau Cefnogi Prawf AEM	Adam Harvey, <i>Swyddog Gwasanaethau Cefnogi</i> Pippa Bennett, <i>Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi</i> Oliver Kenton, <i>Swyddog Ymchwil</i> Alex Pentecost, <i>Rheolwr Cyfathrebu</i>
Prif Arolygwyr Cynorthwyol	Helen Davies, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Alan MacDonald, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>

Rhagair

Yn 2009, rhoddodd Tŷ'r Arglwyddi ddyfarniad o bwysigrwydd eithriadol yn egluro cyfrifoldebau gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ar gyfer darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc ddigartref 16 a 17 oed. Gyda symbyliad dyfarniad Southwark¹, fe adolygodd awdurdodau lleol eu gweithdrefnau a (gydag eraill) fe wnaethant gynhyrchu protocolau, canllawiau a llwybrau newydd. Cafodd y rhagolygon ar gyfer pobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed eu gwella gan ei fod wedi paratoi'r ffordd ar gyfer gwell mynediad i lety a gwasanaethau cymorth oherwydd y dyfarniad a'r ymrwymadau a oedd yn tarfu ohono.

Chwe blynedd yn ddiweddarach, datgelodd yr arolygiad hwn ddarlun cymysg ar lawr gwlad. Yn fwyaf pryderus, roedd un o bob tri o rai 16 a 17 oed yn ein harolygiad yn cael eu cartrefu mewn llety roeddem yn ei ystyried yn anaddas neu'n anniogel. Roeddem yn arbennig o bryderus am y risgiau yr oedd y rheiny a oedd yn rhannu hostel neu lety gwely a brecwast gyda dieithriaid sy'n oedolion yn cael eu hamlygu iddynt.

Ni wnaeth unrhyw awdurdod lleol awgrymu wrthym fod y diffygion hyn oherwydd diffyg cyllid. Roedd yn ymddangos eu bod yn deillio'n fwy uniongyrchol o asesiad gwael neu anghyflawn, diffyg gweithio cydgysylltiedig a diffyg cydnabod anghenion ehangach plant, a thueddiad i leoli plant fel pe baent yn oedolion. Canfu ein harolygiad fod yr ystod o ddarpariaeth llety addas yn gyfyngedig ac arweiniodd hyn at rai plant yn cael eu rhoi mewn llety nad oedd yn bodloni eu hanghenion.

Roedd y plant yr adolygwyd eu hachosion i gyd wedi dioddef rhyw fath o drawma yn eu bywydau. Roedd y rhan fwyaf wedi bod yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn flaenorol ac roedd rhai yn destun gorchmynion gofal². Roeddent yn aml yn arddangos ymddygiad anodd. Nid oedd pob un o'r rhai ohonynt a welodd yr arolygwyr eto'n gallu bod yn annibynnol yn llwyddiannus ac roedd arnynt angen rhyw fath o rianta a chymorth o hyd. Unwaith eto, fe ganfuom ddarlun cymysg ar lawr gwlad. Roedd lleiafrif yn derbyn cefnogaeth ardderchog, ond roedd gormod wedi cael cynnig to uwch eu pennau gyda fawr o gymorth arall heblaw am ychydig oriau yr wythnos o gymorth gan weithwyr proffesiynol oedd yn ymweld.

Un ffactor pwysig wrth i blant bontio'n llwyddiannus i fyd oedolyn annibynnol oedd parhau i ddarparu cefnogaeth pan fyddent yn cyrraedd 18 oed. Nid oedd hyn ar gael i'r plant i gyd, a'r ffactor oedd yn penderfynu ar hyn oedd a oeddent wedi dod yn Blant yn Derbyn Gofal o dan *Ddeddf Plant 1989*, a oedd yn rhoi hawliau iddynt fel rhai oedd yn gadael gofal i gael cefnogaeth y tu hwnt i 18 oed.

Nid ydym yn gwybod faint o rai 16 a 17 oed sy'n canfod eu bod ar eu pennau eu hunain ac yn dibynnu ar eu hawdurdod lleol am lety i osgoi digartrefedd. Nid yw'r data a'r wybodaeth a gasglwyd yn lleol ac a goladwyd yn genedlaethol³ yn ddigon cynhwysfawr neu gydgysylltiedig. Yn ein harolygiad o chwe awdurdod lleol ni welsom unrhyw dystiolaeth o Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn ymarfer unrhyw graffu ar y sefyllfa leol. Ymhellach, mewn ardaloedd lle'r oedd diffygion, roedd uwch reolwyr yn ymddangos yn oddefgar ac yn barod i dderbyn pethau fel yr oeddent.

Ar nodyn cadarnhaol, canfuom enghreifftiau o arfer rhagorol, ac rydym yn nodi enghreifftiau penodol yn yr adroddiad hwn.

I grynhoi, roedd dau o bob tri o blant mewn llety addas; ac un o bob tri ddim. Roedd y gefnogaeth ehangach a gawsant o ansawdd amrywiol - weithiau'n rhagorol, ac mewn achosion

¹ R (ar gais G) v Bwrdeistref Southwark Llundain [2009] UKHL 26. Gellir lawrlwytho'r trawsgrifiad llawn o tinyurl.com/gvsouthwark

² Mae gorchymyn gofal yn cael ei roi gan lys. Mae'n caniatáu i awdurdod lleol gymryd plentyn i mewn i ofal dan *Ddeddf Plant 1989*.

³ Trwy gydol yr adroddiad, mae cenedlaethol yn cyfeirio at Gymru a Lloegr yn unig.

eraill yn druenus o annigonol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn anodd eu deall, o ystyried bwriadau clir dyfarniad Southwark.

Bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw gwneud llety i bobl ddigartref 16 ac 17 oed yn fwy diogel a'r gefnogaeth a ddarperir iddynt yn fwy effeithiol, er mwyn cynyddu eu rhagolygon o annibyniaeth llwyddiannus fel oedolion.



Y Fonesig Glenys Stacey
Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi



Imelda Richardson
Prif Arolygydd Gofal EM ac
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Awst 2016

Cynnwys

Tudalen

Diolchiadau	X
Rhagair	X
Cefndir a methodoleg arolygu	X
Crynodeb o ganfyddiadau	X
Argymhellion	X
1. Deddfwriaeth a chanllawiau	X
2. Y broses asesu: sefydlu hawl i lety a gwasanaethau cymorth	X
3. Addasrwydd llety	X
4. Effaith	X
5. Gwaith partneriaeth y TTI	X
6. Llywodraethu a goruchwylio	X
Atodiad 1 Canllawiau Allweddol	X
Atodiad 2 Llwybr Nottingham	X
Atodiad 3 Model y Llwybr Cadarnhaol	X
Atodiad 4 Geirfa	X
Atodiad 5: Rôl yr arolygiaethau a'r cod ymarfer	X

Cefndir a methodoleg arolygu

Yn 2009, yn yr hyn a elwir bellach yn ddyfarniad Southwark, dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi fod y prif gyfrifoldeb am letya plant digartref 16 a 17 oed yn nwylo'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant o dan *Ddeddf Plant 1989*. Cyn hynny, roedd llawer o awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau trwy adrannau tai dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd.

Fe wnaeth y dyfarniad Southwark hwn egluro'r gyfraith. O ganlyniad, roedd yn rhaid i wasanaethau gofal cymdeithasol i blant dalu am gostau llety nad oeddent wedi eu cydnabod fel eu cyfrifoldeb hwy cyn hynny. Mewn ymateb i'r dyfarniad, fe wnaeth yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ariannu camau gweithredu gan awdurdodau lleol yn Lloegr i gyflwyno llwybrau digartrefedd, ac fe wnaethant gyhoeddi canllawiau ar y cyd â'r Adran Addysg. Roedd y ffocws ar atal digartrefedd a darparu llety a chefnogaeth briodol i bobl ifanc ddigartref 16 a 17 oed.

Yn yr un modd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ac ymgwymerodd â hyfforddiant a gwaith cefnogi gyda holl awdurdodau lleol Cymru. Yn ogystal, yn fwy diweddar, fe gomisiynodd gwaith pellach ar ddatblygu llety a llwybrau cefnogi ar gyfer pobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed.

Mae chwe blynedd wedi mynd heibio ers dyfarniad Southwark, ond awgrymodd ein canfyddiadau yn ein gwaith arolygu prif ffrwd fod darparu llety addas a diogel i bobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed sy'n hysbys i'r Timau Troseddau Ieuencid (TTIau) yn parhau i fod yn broblem mewn rhai achosion; a dyna'r rheswm am yr arolygiad thematig hwn.

Gan weithio gydag Ofsted ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, canolbwyntiodd ein harolygiad ar brofiad plant o ran cael mynediad at a chadw llety wrth iddynt symud tuag at fod yn oedolion. Fe wnaethon ni arolygu 49 o achosion ar draws 6 awdurdod lleol. Roedd y rhain yn blant a oedd yn hysbys i'r Timau Troseddau Ieuencid ac yn methu â byw gyda'u rhieni. Fe wnaethom wahardd achosion lle roedd plant wedi cael eu cymryd i mewn i ofal er mwyn eu diogelwch eu hunain. Ar adeg yr arolygiad, o'r 49 o achosion:

- Roedd 41 yn fechgyn; 8 yn ferched
- Roedd 25 yn 16 oed; roedd 24 yn 17 oed
- Roedd 38 wedi eu dosbarthu fel Gwyn Prydeinig; 3 wedi eu dosbarthu fel Gwyn Arall; 4 wedi eu dosbarthu fel Du Prydeinig; 1 wedi ei ddosbarthu fel ethnigrwydd cymysg; roedd 2 wedi eu dosbarthu fel Grŵp ethnig arall ac ni chofnodwyd 1
- Roedd 32 yn rhai a oedd wedi Derbynn Gofal ar ryw adeg yn eu bywyd
- Roedd 15 wedi treulio peth amser yn y ddalfa; roedd 6 yn dal i ddisgwyl cael eu rhyddhau.

Lle roedd hynny'n bosibl ac yn briodol, buom yn siarad â hwy a'u rhieni / gofalwyr ynghylch ble roeddent yn byw, sut yr oeddent yn ymdopi a pha gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen. Fe wnaethom hefyd gyfweld:

- staff a rheolwyr o fewn y Timau Troseddau Ieuencid
- staff a rheolwyr o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant
- darparwyr llety - gan gynnwys staff, rheolwyr a chomisiynwyr
- Cadeiryddion byrddau rheoli'r Timau Troseddau Ieuencid
- Cadeiryddion Byrddau Lleol Diogelu Plant
- cynrychiolwyr o sefydliadau cenedlaethol oedd yn goruchwyllo'r gwaith hwn.

Lle'r oedd pryderon ynghylch diogelwch plant unigol⁴, cafodd achosion eu cyfeirio at yr awdurdod lleol ar gyfer camau dilynol.

⁴ Mae enwau'r plant yn yr enghreifftiau ymarferol wedi cael eu newid.

Crynodeb o ganfyddiadau

Nid oedd y rhai digartref 16 ac 17 oed yn yr arolygiad yma yn grŵp homogenaidd, ond roeddent i gyd wedi profi digwyddiadau ysgytwol yn eu bywydau. Roedd eu perthynas ag eraill wedi ei difrodi, roedd eu hymddygiad yn aml yn peri problemau a'u dyfodol yn ansicr. Ni ellid diwallu eu hanghenion drwy wneud dim ond darparu to uwch eu pennau.

Asesiad

Roedd gan bob awdurdod lleol lwybrau asesu wedi'u cofnodi i asesu anghenion plant, ond roedd proses ac ansawdd yr asesu yn wahanol iawn. Nid oedd pob awdurdod lleol yn ystyried yr angen i ddarparu llety o dan adran 20 *Deddf Plant 1989* fel mater o drefn. Mewn rhai ardaloedd, roedd yr holl blant a welsom wedi dod yn Blant oedd yn Derbyn Gofal gan yr awdurdod lleol; mewn eraill, nid oedd unrhyw rai ohonynt wedi cael hynny. Mae statws Derbyn Gofal yn arwyddocaol, o ystyried y gefnogaeth tymor hirach sy'n dod gydag ef (gweler Deddfwriaeth a chanllawiau).

Roedd methiant i ystyried, fel rhan o'r broses asesu, yr angen i letya pobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed o dan adran 20 o *Ddeddf Plant 1989* yn debygol o gael effaith andwyol ar eu llesiant yn y tymor hwy. Dywedwyd wrthym gan rai awdurdodau lleol, gan na allai plant ddod yn rhai a oedd yn Derbyn Gofal o dan adran 20 heb eu caniatâd, ni fu'n bosibl gwneud hynny. Ond roedd ardaloedd eraill wedi llwyddo perswadio plant o fanteision dod yn blant oedd yn Derbyn Gofal.

Roedd gormod o asesiadau a oedd yn cael eu harwain gan adnoddau, a oedd yn ffitio plant i mewn i'r hyn oedd ar gael. Er bod hyn yn gweithio i rai plant, roedd yn rhaid i'r rhai oedd â'r anghenion mwyaf cymhleth ddefnyddio'r lleoliadau arferol cyn iddynt gael eu hystyried ar gyfer pecynnau mwy pwrpasol. Roedd hyn yn golygu bod rhai plant yn dioddef achosion niferus a diangen o leoliadau'n chwalu.

Yn rhy aml, roedd y gwasanaethau a gynigwyd yn atebion mwy addas i oedolion, ac nid oeddent yn bodloni anghenion y plant hyn yn briodol. Ychydig o ystyriaeth a roddwyd i'r ffaith eu bod yn dal i fod yn blant a bod y rhan fwyaf ohonynt yn dal i fod angen rhyw fath o rianta, yn hytrach na dim ond llety a gwasanaethau cefnogi o bell.

Addasrwydd llety

Gwelsom fod un o bob tri o'r plant yr arolygwyd eu hachosion gennym mewn llety anaddas neu anniogel. Roedd rhai lleoliadau yn rhoi plant mewn perygl gan oedolion anhysbys a/neu beryglus ac roedd rhai ohonynt yn darparu cefnogaeth ddidaro ac annigonol. O'r plant hynny mewn llety â chymorth o ansawdd da, roedd golwg fanwl ar eu cefndir yn aml yn datgelu hanes o leoliadau blaenorol oedd yn anaddas.

Yn yr ardaloedd a oedd yn perfformio'n well roedd darpariaeth amrywiol, ac roedd yr hyn a welsom yn addas. Roedd hyn yn amrywio o unedau bach gyda chymorth oedd yn byw i mewn a oedd ar gael drwy'r dydd bob dydd, i lety â chymorth, lle roedd plant yn gallu byw gyda theluloedd. Roedd llety brys addas hefyd ar gael.

Mewn ardaloedd eraill, roedd plant yn cael eu gosod fel mater o drefn mewn hostel neu lety gwely a brecwast lle roeddent yn byw ochr yn ochr ag oedolion anhysbys, a oedd mewn rhai achosion yn beryglus.

Effaith

Gan nad oedd asesiadau yn gyffredinol yn cymryd i ystyriaeth anghenion emosiynol ac anghenion eraill y plant, roedd lefel y gefnogaeth a ddarperid ochr yn ochr â llety yn amrywio'n sylweddol. Mae hynny'n debygol o arwain at ganlyniadau gwahanol, er enghraifft mewn perthynas â rhagolygon cyflogaeth, neu lefelau unigrwydd ac arwahanrwydd.

Mae gan lety anaddas neu anniogel ei risgiau ei hun: yn arbennig risg o niwed gan bobl eraill yn y llety ac i bobl eraill yn y llety. Ar y llaw arall, lle mae plant wedi cael eu rhoi mewn llety addas, gyda chefnogaeth, roedd yn amlwg eu bod yn gallu manteisio ar y cymorth a ddarperid a symud ymlaen tuag at annibyniaeth.

Roedd y cynllunio ar gyfer y dyfodol (tymor byr a hir) yn wan mewn gormod o achosion. Roedd cynllunio wrth gefn bron yn gyfan gwbl absennol. Yn yr achosion hynny lle roedd lleoliad yn chwalu a bod dim cynllun wrth gefn fe wnaethom ganfod gorddefnydd o lety brys anaddas, oedd weithiau'n anniogel, megis gwely a brechwast a hosteli i bob oed.

Gweithio ar y cyd â Thimau Troseddau Ieuencid

Nid yw darparu llety o fewn cylch gwaith y TTIau. Serch hynny, roeddent yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau a'r darparwyr gofal cymdeithasol i blant ac wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn ar y cyfan. Roeddent yn deall pa mor bwysig oedd bod heb lety addas ac yn gweithio'n galed, ac mewn partneriaeth ag eraill, i gefnogi plant. Gydag ychydig o eithriadau, roeddent yn cyfathrebu'n weithredol ac yn rhannu gwybodaeth ag eraill. Y nhw yn aml oedd yn cael y cysylltiad mwyaf rheolaidd a'r berthynas fwyaf cadarnhaol gyda'r plentyn a, lle cawsant eu defnyddio'n briodol, roedd eu cyfraniad yn arbennig o werthfawr.

Yn anffodus, nid oedd pob gweithiwr cymdeithasol yn defnyddio sgiliau a gwybodaeth rheolwyr achos TTI yn llawn. Ni ymgynghorwyd â hwy bob amser nac yn cael eu cynghori pan oedd newidiadau yn cael eu cynllunio, ac roedd hyn weithiau ar draul y plentyn.

Goruchwylio lleol a chenedlaethol

Nid oedd llawer o dystiolaeth o oruchwylio lleol na chenedlaethol, monitro effeithiol ar leoliadau llety nac o gadw at y canllawiau cenedlaethol⁵ ar addasrwydd llety.

Roedd craffu lleol a chenedlaethol yn cael ei rwystro gan ddiffyg gwybodaeth. Yn gyffredinol, nid oedd data defnyddiol yn cael ei gasglu ar lefel leol ac eithrio'r hyn oedd yn ofynnol gan adrannau'r llywodraeth genedlaethol. Yn Lloegr, mae dwy adran ganolog yn casglu data, ond nid oedd yn ddigon cyflawn nac yn ddigon cydgysylltiedig. Roedd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn derbyn rhywfaint o ddata gan adrannau tai awdurdodau lleol am blant a leolwyd mewn llety gwely a brechwast ganddynt. Teimlai rhai gweithwyr proffesiynol fod casglu'r data hwn wedi helpu i leihau nifer y plant a leolwyd gan awdurdodau tai mewn llety gwely a brechwast. Ond nid oedd hyn, fodd bynnag, yn dweud y stori gyfan. Nid oedd nifer y plant a leolwyd gan wasanaethau gofal cymdeithasol i blant mewn llety gwely a brechwast yn cael ei adrodd, a dim ond am rai digartref 16 a 17 oed a oedd yn gadael gofal roedd yr Adran Addysg yn casglu data amdanynt. Dim ond yn ddiweddar yr oedd casglu data wedi dechrau yng Nghymru.

Roedd y defnydd o lety anaddas neu anniogel yn cael ei oddef ar lefel leol. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod y mater hwn wedi cael ei ystyried gan fyrddau rheoli Timau Troseddau Ieuencid lleol na chan Fyrddau Lleol Diogelu Plant. Nid oedd pob un o Gadeiryddion Byrddau Lleol Diogelu Plant yn ymwybodol o ddyfarniad Southwark a'i ofynion, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod craffu ar lety rhai digartref 16 ac 17 oed wedi digwydd, hyd yn oed lle roedd llety anniogel yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.

⁵ Guidance and regulations (of the *Children Act 1989*) Volume 3: planning transition to adulthood for care leavers (England)

ARGYMHELLION

Dylai Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant sicrhau bod:

- y llety a ddarperir ar gyfer y rhai digartref 16 a 17 oed yn ddiogel ac yn briodol i'w hanghenion unigol a'u hanghenion wedi eu hasesu
- llwybrau asesu ar gyfer pobl ifanc ddigartref 16 a 17 oed yn cael eu hadolygu a lle bo'n briodol eu huwchraddio yn unol ag arfer gorau sefydledig
- bregusrwydd pobl ifanc ddigartref 16 a 17 oed yn cael ei gydnabod yn llawn gan staff a bod gwasanaethau'n cael eu teilwra i'w hanghenion unigol, gan gynnwys eu lles emosiynol
- wrth benderfynu pa wasanaethau i'w darparu i'r digartref 16 ac 17 oed, bod ystyriaeth yn cael ei roi yn y broses asesu i a yw er lles gorau'r plant iddynt gael eu lletya o dan adran 20 o *Ddeddf Plant 1989* a bod y manteision hirdymor yn cael eu hesbonio iddynt
- gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant fel mater o drefn yn cynnwys rheolwyr achos y TTI wrth asesu a chynllunio ar y cyd lle bo'n berthnasol, a gweithio gyda hwy i ddarparu a chynnal llety o ansawdd da i blant
- dadansoddiad o anghenion lleol yn cael ei wneud a'i ddefnyddio i fod yn sail i ddarparu a chyflwyno llety o ansawdd da, addas a diogel a gwasanaethau cefnogi i rai digartref 16 a 17 oed
- nad yw rhai digartref 16 a 17 oed yn cael eu rhoi mewn llety gydag oedolion a allai achosi perygl o niwed iddynt
- yr asesiad o anghenion llety a chymorth plant digartref 16 a 17 oed yn y ddalfa yn dechrau wrth iddynt gael eu dedfrydu
- gan bobl ifanc ddigartref 16 a 17 oed sy'n gadael y ddalfa lety addas, diogel a sefydlog wrth iddynt gael eu rhyddhau a'u bod yn gwybod lle y byddant yn byw ymhell cyn iddynt gael eu rhyddhau
- systemau yn cael eu datblygu i fonitro a lleihau nifer y lleoliadau llety a fethodd a brofir gan blant digartref 16 ac 17 oed.

Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr weithio gyda'i gilydd i:

- ddatblygu systemau monitro sy'n galluogi llywodraeth i ddeall yn gynhwysfawr faint o bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast neu lety anaddas arall a gosod disgwyliadau clir ar lywodraeth leol i wella.

Dylai'r Adrannau ar gyfer Cymunedau a Threchu Tlodi ac ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i:

- ddatblygu systemau monitro sy'n galluogi'r llywodraeth i olrhain yn gynhwysfawr faint o bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast neu lety anaddas arall a gosod disgwyliadau clir ar lywodraeth leol i wella.

1. Deddfwriaeth a chanllawiau

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau allweddol ar ddarparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc ddiartref 16 ac 17 oed.

Ffeithiau allweddol

- Mae'r prif gyfrifoldeb am letya a chefnogi rhai digartref 16 a 17 oed yn gorwedd gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant awdurdodau lleol.
- Mae addasrwydd llety yn destun canllawiau cenedlaethol. Ni thybir bod llety gwely a brecwast yn addas ar gyfer y rhai mewn angen blaenoriaethol (sy'n cynnwys rhai 16 a 17 oed) ac eithrio mewn achosion o argyfwng, lle y dylai gael asesiad risg a lle dylai ei ddefnydd gael ei gyfyngu'n llym gan amser.
- Oni bai bod pobl ifanc ddiartref 16 a 17 oed yn cael eu lletya o dan adran 20 o *Ddeddf Plant 1989*, nid oes ganddynt unrhyw hawl cyfreithiol i gefnogaeth barhaus gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant pan fyddant yn cyrraedd 18 oed.

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau i bobl ifanc ddiartref 16 a 17 oed wedi eu nodi mewn deddfwriaeth plant a thai yng Nghymru a Lloegr ac yn cael eu cefnogi gan ganllawiau⁶. Mae mesurau diogelu a chefnogaeth tymor hwy yn sylweddol well ar gyfer y plant hynny sy'n cael eu lletya o dan adran 20 *Deddf Plant 1989*.

Deddfwriaeth allweddol

Mae ***Deddf Plant 1989***⁷ yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant. Mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni drwy wasanaethau gofal cymdeithasol i blant awdurdodau lleol, ac mae gan asiantaethau eraill ddyletswydd i gydweithredu â'r awdurdod. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod plentyn yn cael llety sy'n diwallu ei anghenion, gan gynnwys darparu llety o dan Adran 20 (pan fyddant yn dod yn blant sy'n Derbyn Gofal).

Lle mae awdurdodau lleol yn Gofalu am blant hŷn sy'n newid i fod yn oedolion, mae gofyniad i'r awdurdod sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi cynllunio effeithiol ar gyfer gadael gofal. Mae'r plentyn yn parhau i fod â hawl i gefnogaeth wrth adael gofal ond mae ffocws parhaus ar weithio gyda'r plentyn ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Mae'r ddarpariaeth gadael gofal yn ***Neddf Plant 1989*** a rheoliadau cysylltiedig yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer plant sy'n paratoi i adael gofal. Yn dilyn yr asesiad, rhaid i bob plentyn gael cynllun llwybr sy'n nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi trosglwyddiad y plentyn i fyd oedolyn yn llwyddiannus. Rhaid i'r cynllun hwn gael ei adolygu'n rheolaidd.

Noder: Mae deddfwriaeth gadael gofal yn berthnasol i'r rhai sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am gyfnodau penodol o amser yn unig, boed yn destun gorchymyn gofal dan adran 31 neu yn cael eu lletya o dan adran 20 *Deddf Plant 1989*.

Mae ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*** yn darparu'r ddyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gallai ar blentyn fod angen gofal a chymorth yn ychwanegol at, neu yn lle, yr hyn sy'n cael

⁶ Gweler atodiad 1

⁷ Addaswyd *Deddf Plant 1989* gan *Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000* i wneud darpariaethau mewn perthynas â gadael gofal.

ei ddarparu gan deulu'r plentyn. Mae'n rhaid i'r awdurdod asesu a oes ar y plentyn angen gofal a chefnogaeth o'r math hwnnw, ac os felly, beth yw'r anghenion hynny.

Fe wnaeth **dyfarniad Southwark 2009**⁸ ailddatgan, egluro a chadarnhau bod y prif gyfrifoldeb am letya rhai digartref 16 a 17 oed yn nwylo gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant awdurdodau lleol. Nododd y Farwnes Hale, wrth roi'r prif ddyfarniad: 'Bwriad clir y ddeddfwriaeth yw bod ar y plant hyn angen mwy na tho uwch eu pennau ac nad yw awdurdodau gwasanaethau plant lleol yn gallu osgoi eu cyfrifoldebau tuag at y grŵp oedran heriol hwn drwy eu trosglwyddo i'r awdurdodau tai lleol'.

⁸ Gweler atodiad 1

2. Y broses asesu: sefydlu hawl i lety a gwasanaethau cefnogi

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn disgrifio cefndir yr achosion a arolygwyd gennym yn fyr, y prosesau gwahanol o fewn yr awdurdodau lleol ar gyfer darparu llety a gwasanaethau cefnogi, ac effaith y rheiny ar blant.

Canfyddiadau allweddol

- Roedd pob un o'r plant yr oeddem wedi arolygu eu hachosion wedi profi digwyddiadau anodd yn eu bywydau. Nid oedd unrhyw rai ohonynt oedd angen llety a dim mwy.
- Roedd gan bob awdurdod lleol lwybrau asesu yn eu lle. Roedd rhai yn rhagorol ac eraill yn annigonol. O ganlyniad, roedd plant ag anghenion tebyg yn profi lefelau gwahanol iawn o wasanaeth a chefnogaeth yn dibynnu ar ansawdd llwybr yr awdurdod lleol.
- Roedd awdurdodau lleol yn wahanol yn eu dull o benderfynu a ddylid darparu llety ar gyfer plentyn o dan adran 20 *Deddf Plant 1989*. Roedd y methiant i ystyried, fel rhan o'r broses asesu, yr angen i letya pobl ifanc ddigartref 16 a 17 oed o dan adran 20 *Deddf Plant 1989* yn debygol o gael effaith andwyol ar eu llesiant tymor hwy.

Am y plant hyn

Nid plant heb lety yn unig oedd y rhain. Roedd pob un o'r rhai yr arolygwyd eu hachosion gennym wedi profi anawsterau sylweddol yn eu bywydau, rhai yn fwy eithafol nag eraill. Roedd dau o bob tri wedi Derbyn Gofal ar ryw adeg, gyda rhai ar orchmynion gofal (lle roedd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant gyfrifoldeb statudol fel rhieni corfforaethol). Themâu cyffredin oedd esgeulustod, colli rhieni, camdriniaeth gorfforol a rhywiol a pherthynas deuluol yn chwalu. Nid oedd yn syndod fod y plant hyn yn aml yn arddangos ymddygiad anodd. Roedd pymtheg wedi treulio amser mewn rhyw fath o ddalfa ieuentid.

Nid oedd bob amser yn amlwg bod y rhain yn blant dryslyd, trist, unig, neu ofnus. Nid oedd eu profiadau bywyd yn eu harwain i ymddiried mewn oedolion. Nid oeddent yn ei chael yn hawdd i fynegi eu hanghenion. Roedd rhai gyda'r anghenion mwyaf cymhleth yn aflonyddgar. Roedd eu hymddygiad yn cyflwyno heriau gwirioneddol i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, darparwyr llety ac asiantaethau eraill wrth iddynt eu helpu.

Wrth iddynt symud tuag at fod yn oedolion, nid oedd eu hanaeddfedrwydd a'u bregusrwydd bob amser yn amlwg. Lle nad oedd asesiadau bob amser yn cydnabod hyn, roeddent yn rhy aml yn cael cynnig atebion oedd yn addas i oedolion - sef llety a chymorth cyfyngedig - yn hytrach na gwasanaethau mwy addas i anghenion plant.

Enghraifft o arfer: Effaith asesiad annigonol o anghenion plentyn

Cafodd Sam a oedd yn un ar bymtheg mlwydd oed ei orfodi i adael y cartref teuluol gan ei fam, ar ôl i'w lys-dad adael gan feio Sam am ei ymadawiad. Yn blentyn ifanc, roedd Sam wedi gweld ei dad biolegol yn ceisio llindegu ei fam. Roedd hefyd wedi bod yn dyst i drais domestig parhaus gan ei lys-dad dros gyfnod o flynyddoedd. Roedd yn hysbys fod gan Sam anemia, nad oedd yn cymryd ei feddyginiaeth a'i fod yn mynd am gyfnodau hir heb fwyd.

Treuliodd Sam ei noson gyntaf o ddigartrefedd mewn gardd, ac yna arhosodd gyda ffrind am gyfnod byr cyn cael ei osod mewn prosiect tai ar gyfer pobl 16-25 oed gan yr adran dai. Symudodd ei fam allan o'r ardal. Ni welsom unrhyw gydnabyddiaeth o effaith unrhyw un o'r digwyddiadau hyn ar gyflwr emosiynol Sam. Nid oedd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant unrhyw gysylltiad â hyn ac ni wnaethant gynnig unrhyw gymorth neu wasanaethau er bod atgyfeiriad wedi'i wneud.

Llwybrau llety, protocolau a chanllawiau

Yn 2012, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau Lleol a Llywodraeth (DCLG) ei bwriad i ariannu St Basils, elusen ddigartrefedd ieuencid, er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r llwybr llety ieuencid a dulliau arloesol o ymdrin â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, gan weithio gydag awdurdodau lleol a phrif darparwyr yn y sector gwirfoddol dros 2012-2013⁹. Mae'r Llwybr Cadarnhaol¹⁰ yn darparu fframwaith defnyddiol i awdurdodau lleol a'u partneriaid i'w ddefnyddio'n lleol i gynnig dull wedi ei gynllunio i atal digartrefedd a sicrhau tai i bobl ifanc.

Canfu'r arolygiad fod awdurdodau lleol, yn unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, wedi dylunio llwybrau a sefydlu protocolau ac arweiniad ar gyfer darparu gwasanaethau llety a chymorth i bobl ifanc 16 a 17 oed. Roedd y rhain yn amrywio'n sylweddol, ac roedd ganddynt effeithiau a oedd yn amlwg yn wahanol ac yn sylweddol ar blant. Er eu bod i gyd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, nid oeddent i gyd yn adlewyrchu bwriadau pendant deddfwriaeth a dyfarniad Southwark. Gwelsom, fodd bynnag, rai enghreifftiau o arfer da.

Roedd y trefniadau yn gyffredinol yn cynnwys gwaith ar y cyd rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac awdurdodau tai. Roedd rhai ardaloedd wedi sefydlu prosesau i'r ddau wasanaeth weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i'r atebion mwyaf addas.

Ond roedd rhai plant yn cael eu lleoli gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac eraill gan awdurdodau tai, ac yn ymarferol, roedd lefelau amrywiol o wasanaeth a darpariaeth ar draws Cymru a Lloegr. Mewn un awdurdod lleol, gwelsom system nad oedd yn asesu anghenion plant yn briodol. Roedd asesiadau yn cael eu cynnal gan weithwyr tai a oedd wedi cael rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol i asesu anghenion eraill. Roedd hyn wedi cael effaith sylweddol, andwyol ar y math o lety a'r gwasanaethau cymorth oedd yn cael eu cynnig i blant digartref.

Roedd y trefniadau gwahanol hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth a'r gwasanaeth i blant. Roeddent hefyd yn golygu bod dealltwriaeth y llywodraeth ganolog o berfformiad yn anghyson ac yn anghyflawn, gan fod angen adrodd am nifer y plant a leolid mewn llety gwely a brecwast gan adrannau tai, ond nid y rhai a leolid gan wasanaethau gofal cymdeithasol i blant.

⁹ St. Basil's, *Developing Positive Pathways to Adulthood: Supporting young people on their journey to economic independence and success through housing advice, options and homelessness prevention 2012 (diweddarwyd yn 2015)* a ddatblygwyd gan St. Basils, elusen digartrefedd ieuencid, gyda chynngor awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol, asiantaethau digartrefedd a phobl ifanc ac mae'n darparu arweiniad ar ddatblygu llwybrau digartrefedd effeithiol.

¹⁰ Gweler atodiad 3

Enghreifftiau o arfer da: Gwasanaethau a oedd yn gwneud cael mynediad at lety yn haws i blant digartref

Yn Enfield gwelsom effaith llwybr oedd yn adlewyrchu dyfarniad Southwark yn llawn. Gwelsom wasanaethau wedi'u trefnu'n dda ac integredig o'r dechrau i'r diwedd yn ymestyn o gyfryngu a chefnogaeth i atal digartrefedd diangen, hyd at ddarparu llety a chymorth lle roedd angen. Roedd un pwynt mynediad yn sicrhau bod yr holl wasanaethau ar waith mor gynnar â phosibl. Roedd tasgau yn cael eu dyrannu i weithwyr proffesiynol yn dibynnu ar berthnasau yn hytrach na ffiniau asiantaethau. Gwneid defnydd da o banel risg uchel, Grŵp Llywio Cefnogi Tai Pobl Ifanc a'r tîm lleoli a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd y TTI wedi'i integreiddio'n llawn i wasanaethau digartrefedd.

Yn Swydd Nottingham, dywedwyd wrthym am lwybr¹¹ a oedd yn ei gamau cynnar ond a oedd yn cael ei ystyried gan arbenigwyr allanol fel model o arfer da. Roedd amrywiaeth o ddarpariaeth oedd yn galluogi plant i symud ymlaen i annibyniaeth, ac yn diwallu eu hanghenion ar bob cam o'r ffordd. Roedd hyn yn dechrau gyda llety argyfwng lle roedd angen, gan symud ymlaen i wasanaeth craidd yn darparu fflatiau un ystafell hunangynhwysol gyda staff ar ddyletswydd am 24 awr a mannau cymunedol. Roedd gwasanaeth clwstwr dilynol ar gael a oedd yn cynnwys llety hunangynhwysol neu lety a rennid gyda chefnogaeth yn ymweld.

Roedd Hartlepool yn defnyddio Cyswllt Cyntaf a Hwb Cymorth a oedd o fewn yr un adeilad â'r TTI ac a oedd â chysylltiadau agos. Roedd yr hwb yn defnyddio model Hwb Diogelu Aml-Asiantaeth a oedd yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth trais yn y cartref a swyddog addysg. Roedd therapydd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc i fod i ymuno â'r tîm. O ganlyniad, roedd plant yn cael eu hasesu yn ddi-oed.

Ym Mro Morgannwg gwelsom siop-un-stop sef y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y rhai o dan 18 oed oedd yn profi angen am dai. Roedd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ar y cyd â'r prif ddarparwr lleol, Llamau. Roedd yr amgylchedd yn gyfeillgar a chroesawgar i blant. Roedd y staff yn wybodus ac yn llawn cydymdeimlad. Archwiliwyd gwasanaethau cyfryngu i ddechrau gydag asesiad llawn o anghenion ac asesiad tai i ddilyn lle roedd angen. Roedd dealltwriaeth o fanteision posibl y plentyn oedd yn Derbyn Gofal.

Enghraifft o arfer da: Mynediad cyflym at lety addas

Yn Enfield, ymddangosodd Jamie 16 oed fel person digartref pan wrthododd ei rieni ei gael adref ar ôl iddo fynd ar goll am benwythnos. Roedd ei ymddygiad wedi bod yn dirywio ac roedd cymorth wedi cael ei ddarparu yn y gorffennol i geisio ei gadw gyda'r teulu. Cafodd ei letya o dan adran 20 *Deddf Plant 1989* ar y diwrnod yr ymddangosodd, mewn lleoliad diogel ac addas, yn agos at ei gartref gyda staff ar ddyletswydd 24 awr. Ar adeg yr arolygiad roedd wedi bod yn byw yno am 12 mis.

¹¹ Gweler atodiad 2

Enghraifft o arfer: Methiant i asesu anghenion plentyn yn briodol

Roedd Jonathan, 16 mlwydd oed, wedi byw gyda'i nain ers iddo fod yn 3 oed. Pan gafodd ei frawd hynaf ei ryddhau o'r carchar a symud i mewn gyda nhw fe wnaeth pethau ddirywio'n gyflym. Fe wnaeth ei frawd ddfrodi cymaint ar yr eiddo fel y daeth y lle'n anaddas i fyw ynddo. O fewn dyddiau roedd Jonathan wedi cael ei leoli ar ei ben ei hun mewn tŷ un ystafell wely. Ychydig iawn o gefnogaeth a roddwyd, oedd yn cynnwys ymweliadau wythnosol gan y gweithwyr cymorth tai a chysylltiad â'r TTI.

Pan wnaethom gyfweld Jonathan, fe grïodd. Dywedodd wrthym: *"Roedd yn ddewis o dŷ neu hostel. Doeddwn i ddim yn barod i symud allan. Byddwn wedi hoffi cael fy maethu. Gallwn fod wedi canolbwyntio ar fy ngholeg. Mae'n unig ac yn ddiflas. Does dim byd i'w wneud heblaw gwyllo'r teledu. Rydw i'n poeni am fynd i ddyled. Nid fy mai i oedd fod rhaid i mi symud allan. Nawr mae pawb arall yn byw'n hapus ac rydw innau ar fy mhen fy hun.*

Statws Derbyn Gofal

Yn ystod asesiad, gwnaed y penderfyniad ynghylch a ddylai plentyn ddod yn blentyn oedd yn Derbyn Gofal o dan adran 20 *Deddf Plant 1989*.

Mae effaith statws Derbyn Gofal yn bwysig i blant wrth iddynt symud tuag at annibyniaeth. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn dod yn rhai sy'n gadael gofal, gyda hawliau cyfreithiol a diogelwch, ac **maent yn gymwys i gael cefnogaeth hyd nes eu bod yn 21 oed (neu yn 25 mewn rhai amgylchiadau)**. Gallai'r rhai sy'n cael cynnig llety a chymorth heb y statws hwn dderbyn gwasanaethau tebyg pan maent yn 16 ac 17 mlwydd oed. Cafodd yr effaith yn 18 mlwydd oed, fodd bynnag, ei ddisgrifio wrthym gan un swyddog proffesiynol fel *"syrthio oddi ar ymyl clogwyn"* o ran darpariaeth a chefnogaeth.

Roedd ardaloedd yn wahanol iawn o ran eu dull o benderfynu a ddylai plentyn gael ei ddarparu gyda llety o dan adran 20. Mewn un ardal, roedd gan bob un o'r plant yn ein sampl statws plentyn oedd wedi Derbyn Gofal. Mewn un arall, nid oedd gan unrhyw rai o'r plant y statws hwnnw.

Nid oedd statws Derbyn Gofal yn cydberthyn yn uniongyrchol â'r safonau llety a chefnogaeth a ddarperid i bobl ifanc 16 a 17 oed. Canfuom fod y gwasanaethau yn dda mewn un ardal lle roedd y plant i gyd wedi eu gwneud yn rhai oedd yn Derbyn Gofal a hefyd mewn un arall lle nad oedd unrhyw rai o'r plant wedi'u gwneud yn rhai oedd yn Derbyn Gofal. Mewn trydydd ardal, lle nad oedd unrhyw rai o'r plant wedi eu darparu gyda llety o dan adran 20, gwelsom rai lleoliadau a oedd yn beryglus ac oedd wedi rhoi plant mewn perygl o niwed. Fe wnaethom, fodd bynnag, weld gwahaniaeth yn ansawdd y llety a ddarparwyd i blant. Roedd cyfran y rhai oedd naill ai yn cael eu lletya o dan adran 20 o *Ddeddf Plant 1989* neu yn destun gorchmynion gofal a oedd mewn llety o ansawdd digon da yn sylweddol uwch na'r rhai nad oedd ganddynt y statws hwnnw.

Ac eithrio Enfield a Norfolk, dywedodd awdurdodau lleol wrthym fod y rhan fwyaf o blant, pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn awyddus i ddod yn blant oedd yn Derbyn Gofal, yn gwrthwynebu'r dull hwn o weithredu'n ffyrnig. Gan fod angen eu caniatâd, roedd hyn yn atal awdurdodau lleol rhag gweithredu fel hyn. Fe wnaethom holi pa mor ragweithiol y gallai manteision statws Derbyn Gofal fod wedi eu hesbonio ac fe wnaethom ganfod nad oedd barn a dymuniadau plant yn cael eu cofnodi fel mater o drefn mewn asesiadau.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y statws yn cael ei gadw dan arolwg fel y gallai plant fod yn Derbyn Gofal os oedd angen. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o hyn yn yr achosion a arolygwyd gennym.

Enghraifft o arfer: Colli cefnogaeth yn 18 mlwydd oed

Roedd Scott yn cael ei ddisgrifio gan ei reolwr achos TTI fel "*dyn ifanc oedd yn emosiynol naif a bregus*". Cafodd ei dynnu oddi wrth ei rieni yn ifanc o ganlyniad i drais yn y cartref a chafodd ei osod gyda'i fodryb. Pan dorrodd hyn i lawr pan oedd yn 17 mlwydd oed, fe wnaeth fyw mewn sied yn yr ardd am 3 mis. Pan ddaeth i sylw'r TTI, lleolodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ef mewn llety argyfwng lle na wnaeth ymdopi'n dda. Yr oedd yn ddyn ifanc bregus oedd yn agored i gael ei fwlio a'i ymosod arno gan eraill. Cafodd ei roi wedyn mewn hostel. Daeth yn amlwg ei fod yn rhoi ei fwyd ei hun i deulu lleol ac yn cardota. Cyfarfu ei weithiwr cymdeithasol gyda'r teulu er mwyn eu rhwystro rhag ei gam-drin fel hyn ond roedd hyn yn anodd ei reoli o hyd braich a pharhaodd yn agored i niwed.

Dyweddodd Scott wrthym ei fod yn colli ei deulu a phan ddaeth yn ddiartref am y tro cyntaf dywedodd wrth y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant y byddai ganddo ddi-ddordeb mewn cael ei faethu. Dywedir eu bod wedi ymateb drwy ddweud nad oedd yn werth gwneud hynny yn ei oed ef.

Roedd Scott i fod i fod yn 18 oed ar ddiwedd 2015 ac roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn bwriadu cau ei achos gan nad oedd ganddo statws Derbyn Gofal. Roedd goruchwyliaeth y TTI i fod i orffen tua'r un pryd gan ei adael heb unrhyw gefnogaeth. Nid oedd yn eglur ar adeg yr arolygiad a fyddai'n gymwys am gefnogaeth iechyd meddwl i oedolion.

Mynegodd mwy nag un awdurdod lleol bryder wrthym y bydd y newidiadau arfaethedig i hawl budd-dal tai yn effeithio ar bobl ifanc 18 oed yn anghymesur, ac yn ei gwneud yn anodd iddynt gael mynediad i unrhyw lety sefydlog, naill ai yn y sectorau tai preifat neu gymdeithasol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys colli hawl awtomatig i fudd-dal tai ar gyfer oedolion ifanc a chap ar y gyfradd leol. Dywedwyd wrthym y bydd hyn yn ei gwneud bron yn amhosibl i berson ifanc nad yw'n gweithio fforddio byw mewn unrhyw beth heblaw eiddo a rennir. Roedd gweithwyr proffesiynol oedd yn gysylltiedig â hyn yn credu y bydd hyd yn oed yn fwy heriol darparu llety i 'symud ymlaen' iddo ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth neu sy'n agored i niwed, neu'n achosi perygl o niwed.

Dilyniant ac anghenion unigol

Mewn rhai achosion, oedran y plentyn oedd y ffactor bwysig o ran cynllunio, yn hytrach na'u hanghenion unigol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer y rhai na fyddai ganddynt statws fel rhai oedd yn gadael gofal. Mae'r newid i annibyniaeth yn wahanol i bob plentyn, ond nid oedd y systemau bob amser yn cymryd hyn i ystyriaeth. Roedd y rhan fwyaf o blant yn wynebu cyfnod pontio wedi'i gyflymu nad oeddent yn barod ar ei gyfer. Mewn rhai achosion, roedd gan asiantaethau ddisgwyliadau afrealistig o allu'r plentyn i ymdopi neu symud ymlaen.

Roedd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn deall na fyddai plant yn llwyddo i gynnal eu hymgais gyntaf i fod yn annibynnol, nac yn wir eu hail, trydydd neu bedwerydd, a bod angen i fesurau diogelu a gwasanaethau gymryd hyn i ystyriaeth. Efallai y bydd angen i blant symud yn ôl i amgylchedd ofalgar, mwy strwythuredig, megis gofal maeth. Dywedwyd wrthym gan rai awdurdodau lleol bod yr opsiwn hwn ar gael i blant yn eu hardal er na welsom unrhyw dystiolaeth o hyn o fewn ein sampl o achosion.

Dyweddodd swyddogion proffesiynol ym maes tai wrthym fod yna risg mewn rhai manau y gallai plant (ac eithrio'r rhai eithriedig oherwydd eu statws Derbyn Gofal) ddiweddu yn y pen draw gyda phenderfyniad 'digartref yn fwriadol'¹² oherwydd eu bod wedi cael eu troi allan am ôl-ddyledion rhent neu ymddygiad gwrthgymdeithasol neu y tybid eu bod wedi 'gadael' eu llety. Byddai hwn yn benderfyniad mawr, gan na fyddent wedyn yn dod o fewn y brif ddyletswydd

¹² Penderfyniad a wnaed gan awdurdodau tai sy'n cyfyngu ar y ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu llety i bobl ddiartref, gan gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed.

ddigartrefedd statudol o dan ddeddfwriaeth digartrefedd, ond dyletswydd lai o gyfnod cyfyngedig o amser i gael tŷ dros dro (28 diwrnod yn Lloegr a hyd at 56 diwrnod yng Nghymru).

Enghraifft o arfer: Methiant i asesu aeddfedrwydd neu ddeall anghenion plentyn yn iawn

Yn bymtheg mlwydd oed, dychwelodd Michael o dramor, lle roedd ei fam a'i dad yn byw, i fyw gyda'i gefnder. Nid oedd hyn yn llwyddiannus ac fe symudodd o gwmpas amryw o'i ffrindiau a'i deulu am 10 mis nes iddo gyflwyno ei hun fel rhywun digartref yn 16 oed ac 8 diwrnod. Cafodd ei osod mewn llety argyfwng, mewn bloc o fflatiau uchel. Fe ymwelom â'r llety hwn a barnu ei fod yn gwbl anaddas ar gyfer rhywun 16 oed, ac yn anniogel. Roedd wedi cael ei gyfeirio gan yr adran tai at y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ond nid ydyn nhw wedi cymryd unrhyw gamau i asesu ei anghenion. Bythefnos yn ddiweddarach, cyflwynodd ei hun eto, y tro hwn yn uniongyrchol i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, gan ddweud ei fod yn teimlo'n anniogel lle roedd yn byw. Unwaith eto, methodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant dderbyn cyfrifoldeb amdano, felly cafodd Michael ei symud gan y gwasanaethau tai i fflat arall.

Cofnodwyd bod hyn mewn ardal lle roedd troseddu a defnyddio cyffuriau yn gyffredin.

Cofnodwyd hefyd ei fod yn swil, yn brin o hyder ac y gellid dylanwadu'n hawdd arno ac y byddai'n llesol iddo gael ei symud i lety â chymorth, a oedd yn fwy addas ar gyfer plentyn o'i oedran. Nid aethpwyd ar hyd y trywydd hwn.

Casgliad

Effaith dyfarniad Southwark oedd gwella mynediad i lety a chymorth i bobl ddigartref ifanc 16 a 17 oed. Yn yr awdurdodau lleol a oedd wedi cofleidio'r dyfarniad, roedd plant yn fwy tebygol o gael y cymorth oedd ei angen i symud ymlaen i fod yn oedolyn annibynnol. Roedd llwybrau effeithiol a hawdd eu defnyddio yn hwyluso mynediad cyflym ac yn rhoi ystyriaeth i anghenion tymor cyfredol a thymor hir y plentyn.

Yn rhy aml, fodd bynnag, roedd methiant i gydnabod anghenion emosiynol a datblygiadol plant yn wahanol i'w gofynion ymarferol, ac arweiniodd hyn at wasanaethau llety a chymorth nad oedd yn bodloni eu hanghenion yn briodol fel plant hŷn. Cyfrannodd hyn mewn rhai achosion at chwalu lleoliad.

Yn hanfodol, roedd methiant i wneud yn siŵr ym mhob achos bod plant yn deall yn llawn ac yn gwerthfawrogi'r manteision hirdymor o ddod yn blant oedd yn Derbyn Gofal o dan *Ddeddf Plant 1989*. Yn ein barn ni, roedd methiannau difrifol yn y broses asesu i adlewyrchu'n llawn anghenion plant 16 ac 17 oed oedd yn cyflwyno eu hunain fel rhai digartref. Roedd hyn o bosibl yn effeithio ar allu plant i gyrchu at wasanaethau effeithiol oedd yn diwallu eu hanghenion penodol ac i gael y statws priodol o dan *Ddeddf Plant 1989*.

3. Addasrwydd llety

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r amrywiaeth o lety a ddarparwyd a welsom

Canfyddiadau allweddol

- Roedd y llety a welsom yn amrywio'n fawr. Roedd tri deg tri o'r pedwar deg naw o blant yn byw mewn llety a farnwyd yn addas. Roedd un o bob tri mewn llety anaddas neu anniogel.
- Nid oedd y rhan fwyaf o lety wedi ei reoleiddio na'i arolygu gan arolygiaethau gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, Ofsted nac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).
- Roedd rhai enghreifftiau o lety yn darparu cefnogaeth fewnol dda drwy'r dydd bob dydd. Roedd eraill yn gadael plant ar eu pennau eu hunain gydag ychydig oriau o gefnogaeth ymwelydd bob wythnos.
- Mewn rhai manau, roedd defnyddio llety gwely a brecwast a hostel yn arferol, gan adael plant yn byw gydag oedolion anhysbys, ac weithiau'n beryglus.

Mathau o lety

Roedd y math o lety yn amrywio ar draws, ac o fewn, yr ardaloedd yr ymwelwyd â hwy. Roedd nifer fechan o blant wedi cael eu lleoli mewn cartrefi preswyl i blant, rhai y tu allan i'r ardal. Roedd y rhan fwyaf mewn llety nad oedd yn cael ei reoleiddio na'i arolygu gan Ofsted na'r AGGCC (arolygiaethau sy'n gyfrifol am gartrefi plant). Roedd llai o fesurau diogelwch ar gyfer plant oedd wedi'u lleoli yno.

Fe wnaethom ganfod rhywfaint o ddarpariaeth dda ac amrywiol ar draws yr holl awdurdodau lleol, er bod gan rai gyfran uwch a dybiem oedd yn ddigon da. Roeddem yn falch o weld, mewn rhai awdurdodau, bod plant yn cael eu rhoi mewn unedau llai gyda chymorth 24 awr, saith niwrnod yr wythnos. Fe wnaethom hefyd ganfod nifer fach o unedau oedd yn cymryd dim ond rhai 16 ac 17 oed (gyda rhai 18 oed a oedd wedi aros ymlaen ar ôl eu pen-blwyddi).

Roedd llety brys penodol hefyd ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd er bod hwn yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd. Roedd llety â chefnogaeth ar gael mewn rhai ardaloedd, ac yn cael ei ddatblygu mewn rhai eraill, er mewn un lle roeddent ar gael i Blant oedd yn Derbyn Gofal yn unig. Roedd tenantiaethau wedi'u gwarantu gan yr awdurdod lleol ar gael i rai dan 18 mewn rhai ardaloedd.

Enghraifft o arfer da: Darparu llety addas a diogel gyda lefelau cymorth priodol

Yng Nghymru, roedd ystod dda o lety drwy'r darparwr Llamau. Roedd yr unedau hynny y gwanethom lwyddo i'w gweld o ansawdd da ac yn addas i blant. Roedd gweithwyr proffesiynol eraill mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant a TTI yn gadarnhaol am eu gwasanaethau. Roedd y cynllun llety â chymorth yn caniatáu i blant aros ar ôl eu pen-blwydd yn 18 ac roedd ganddo gysylltiadau gyda choleg lleol; roedd pedwar o blant wedi cael Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol trwy'r llwybr hwn.

Yn Hartlepool, gwelsom uned breswyl fechan, leol o chwe uned hunangynhwysol a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol ac oedd wedi bod yn weithredol am tua phedair blynedd. Derbyniai'r uned bobl ifanc 16-25 oed er mai cyfartaledd oedran y preswylwyr, ar adeg yr arolygiad, oedd 17 oed; roedd rhaniad 50/50 rhwng y ddau ryw. Mae pump o'r chwe phreswlydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Dywedwyd wrthym yr ymgynghorwyd â phlant lleol am eu hanghenion yn y broses gomisiynu.

Llety anaddas neu anniogel

Dywedodd pob un o'r awdurdodau lleol wrthym eu bod yn defnyddio gwely a brecwast mewn sefyllfaoedd argyfwng yn unig, ac am gyfnodau byr iawn. Gwelsom achosion, fodd bynnag, lle roedd plant wedi bod yno am wythnosau, ac mewn un achos roedd wedi dod yn lleoliad parhaol. Mewn un ardal, roedd pob plentyn yr arolygwyd ei achos gennym wedi treulio rhywfaint o amser mewn llety gwely a brecwast.

Roedd nifer o awdurdodau lleol yn gosod plant mewn hosteli oedd yn cymryd oedolion, yn aml gyda chofnodion troseddol. Roedd gan yr hosteli fel arfer derfynau oedran uchaf o 25 oed, er nad oedd gan rai unrhyw derfyn uchaf. Nid oedd cefndir yr oedolion eraill a leolid yno yn hysbys bob amser. Nid oedd gan unrhyw un o'r hosteli staff fyddai'n deffro yn y nos. Roedd ardaloedd cyffredin yn cynnig dim ond ychydig neu ddim goruchwyliaeth i blant oedd yn agored i niwed.

Roedd un o'r hosteli a welsom, oedd yn cymryd rhai 16 i 25 mlwydd oed, yn ddynion a merched, tua dwy filltir i fyny ffordd wledig gul, heb oleuadau, palmentydd na chlodiant cyhoeddus. Cyfaddefodd y rheolwr y gallai fod yn beryglus ac roedd wedi awgrymu defnyddio siacedi gweledd uchel. Roeddem yn barnu fod y lle yn anniogel i blant.

Enghraifft o arfer: Canlyniadau gosod plant mewn llety anniogel gydag oedolion

Roedd Karen wedi'i gwneud yn destun gorchymyn gofal llawn ym mis Tachwedd 2012 ar ôl blynyddoedd o esgeulustod a thrais yn y cartref yn ei chartref. Yn 16 mlwydd oed, bu'n rhaid iddi adael cartref preswyl i blant ac fe'i rhoddwyd mewn hostel cymysg (uchod) lle cyfarfu â dyn 22 mlwydd oed a ddaeth yn bartner iddi. Daeth i'r amlwg yn ddiweddarach fod ganddo gofnod troseddol a hanes o drais tuag at bartneriaid nad oedd yn hysbys naill ai i'r TTI na'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Pan gafodd ei droi allan oherwydd ei ymddygiad, gadawodd Karen gydag ef. Am gyfnod sylweddol bu'r pâr yn byw mewn pabell.

Ar adeg yr arolygiad roedd Karen, oedd bellach yn 17 oed, wedi cael ei gosod gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant mewn llety gwely a brecwast gydag ef. Roedd yn ymddangos mai ychydig iawn yr oedd asiantaethau yn ei wneud i'w chefnogi, ac eithrio gwneud yn siŵr bod staff yn ymweld i fonitro ei llesiant. Roedd ei modryb wedi adrodd am weld cleisiau ar ei hwyneb ac roedd yr heddlu wedi'u galw allan i drin trais yn y cartref.

Llety argyfwng

Canfuom fod y defnydd 'argyfwng' o lety gwely a brecwast ar bob lefel yn cael ei oddef, hyd yn oed er y cydnabyddid nad yw'r sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio, ac roedd yn amhosibl

monitro'r preswylwyr eraill a sicrhau diogelwch y plant oedd yn cael eu lleoli yno. Roeddem yn pryderu wrth ganfod achos o blentyn oedd yn derbyn gofal a oedd wedi bod yn preswyllo mewn sefydliad gwely a brecwast pan oedd trosedd dreisgar wedi digwydd ar y safle.

Defnyddiai un awdurdod lleol floc o fflatiau aml-lawr fel llety brys. Roedd y bloc yn cartrefu hyd at 96 o bobl o bob oed a chefnidir nad oeddent i gyd yn hysbys i'r rhai oedd yn lleoli plant yno.

Bregusrwydd penodol

Canfu'r arolygiad fod merched yn arbennig o agored i niwed mewn lleoliadau lle roeddent yn byw ochr yn ochr ag oedolion gwrywaidd. O'r wyth o ferched y buom yn arolygu eu hachosion, roedd gan saith anghenion diogelu ac mewn pump o'r achosion hynny, nid oedd y llety a ddarperid wedi helpu i'w cadw'n ddiogel.

Casgliad

Roedd darpariaeth yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn amlwg wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ddarparu llety da ac amrywiol i bobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed. Roeddem yn pryderu, fodd bynnag, o weld y defnydd o'r hyn roeddem yn ei ystyried yn llety anaddas neu anniogel mewn rhai achosion.

Roedd rhywfaint o'r ddarpariaeth a arsylwyd gennym yn anniogel ar gyfer plant. Nid oedd yn bodloni'r ddyletswydd statudol i hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos llety mewn argyfwng. Ni welsom unrhyw systemau ar waith yn unrhyw le i wneud yn siŵr nad oedd preswylwyr eraill mewn llety gwely a brecwast yn cael eu hystyried yn beryglus i blant. Oherwydd hynny, ac yn unol â chyfarwyddyd y llywodraeth roeddem yn barnu bod y defnydd o lety o'r fath yn annerbyniol.

4. Effaith

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu sut mae asesu a chynllunio gwasanaethau yn effeithio ar brofiadau plant digartref.

Canfyddiadau allweddol

- Nid oedd asesu yn gyffredinol yn rhoi ystyriaeth i anghenion emosiynol plant. Roedd lefelau'r cymorth a ddarperid i blant wedi iddynt gael eu lleoli yn amlwg yn wahanol, gyda rhai yn llawer mwy tebygol o arwain at ganlyniadau da nag eraill.
- Roedd asesiadau yn cael eu harwain gan adnoddau yn bennaf, gyda phlant yn cael eu ffitio i mewn i'r hyn a oedd ar gael. Ar gyfer y rhai gyda'r anghenion mwyaf cymhleth, roedd hyn yn cyfrannu at chwalu mwy o leoliadau.
- Roedd cynllunio wrth gefn bron yn gyfan gwbl absennol, gan arwain at ormod o leoliadau brys. Gallai rhai fod wedi cael eu hosgoi gyda gwell cynllunio a chynllunio mwy amserol.
- Roedd cynllunio ar gyfer llety plant ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa yn amrywiol, ac weithiau'n cael ei wneud ar y funud olaf.

Cymorth

Ar gyfer y plant hynny sy'n delio â'r ymyleiddio anochel a ddaw yn sgil cael eu cartrefu y tu allan i strwythurau teuluol, roedd cefnogaeth yn hanfodol. Dylai llety addas gynnwys cefnogaeth briodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i'r plant hyn.

Yn dibynnu ar y math o lety, roedd strwythurau cymorth yn wahanol iawn. I rai plant oedd yn byw mewn llety â chymorth, roedd cymorth ar gael iddynt 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Yn ogystal, mewn rhai mannau, gwelsom weithgareddau cymunedol a rhannu pryddau bwyd yn rheolaidd a oedd yn mynd rywfaint o'r ffordd at helpu i fodloni anghenion emosiynol y plentyn.

Roedd rhai darparwyr yn deall yn glir bod ar y plant yr oeddent yn gweithio gyda nhw angen cefnogaeth emosiynol yn ogystal â chefnogaeth ymarferol. Disgrifiodd un nhw fel *"yn fy ngofal"* a dywedodd *"eu bod angen eu rhianta"*.

Mewn achosion eraill, roedd plant yn byw ar eu pennau eu hunain ac yn cael ymweliadau gan nifer o staff proffesiynol gwahanol. Roedd unigrwydd yn broblem wirioneddol i'r plant hyn. Fel y dywedodd un: *"Roeddwn yn arfer â byw mewn teulu. Roedd yna bob amser bobl o gwmpas. Nawr does yna neb"*.

Asesu a lleoli

Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy, penderfynwyd ar leoli plant a'r gefnogaeth a ddarperid ar sail asesiad ffurfiol o'u hanghenion am lety a chymorth, ac roedd yn cynnwys y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Roedd rhai o'r asesiadau a welsom yn fanwl iawn, ond roeddent hwythau yn rhy aml yn dechrau gyda'r ddarpariaeth yn y pen draw mewn golwg. Mewn geiriau eraill, nid oedd yr anghenion a nodwyd bob amser yn penderfynu ar y canlyniad; roedd yn rhaid i'r plentyn ffitio i mewn gyda pha fath bynnag o ddarpariaeth oedd ar gael.

Yn benodol, roeddem yn barnu bod yr asesiad o'u hanghenion emosiynol **fel plant** yn arwynebol ar y gorau a ddim yn bodoli ar y gwaethaf. Tueddai rhai asesiadau i ganolbwyntio ar yr angen am dai yn unig, yn hytrach nag anghenion y plentyn. O ganlyniad, nid oedd y llety a lefel y

gefnogaeth a gawsent yn diwallu eu hanghenion. Nid oedd llawer o dystiolaeth fod plant wedi gallu gwneud cyfraniad gwybodus i'r asesiad.

Roedd y ddarpariaeth yn cael ei harwain gan adnoddau. Mewn rhai ardaloedd, ac achosion, roeddem o'r farn bod y llety yn ddigon da i ddiwallu anghenion uniongyrchol, *ymarferol* plant. Mewn rhai eraill, nid oedd yn ddigon da. Yn yr awdurdodau lleol hynny oedd yn defnyddio llety anaddas a /neu anniogel, roedd yn amlwg nad oedd anghenion plant yn cael eu diwallu o gwbl. Roedd asesiadau, lle roeddent yn cael eu cynnal o gwbl, yn ddidaro ac yn gwneud dim mwy na chydymffurfio â gweithdrefn.

Yn yr awdurdodau lleol oedd â darpariaeth dda ac amrywiol, roedd y rhan fwyaf o blant yn derbyn gwasanaeth a oedd yn ddigon da i fodloni eu hanghenion llety. Y broblem i'r awdurdodau hynny oedd lleoli plant gydag anghenion arbennig cymhleth. Yn rhy aml, nid oedd eu hanghenion wedi cael eu diwallu ac roedd y trefniadau llety, felly, wedi chwalu. Roedden nhw felly wedi cael eu symud drwy nifer o leoliadau, cyn iddynt gael eu hystyried ar gyfer rhywbeth wedi'i deilwra'n unigol ar eu cyfer.

Dylai asesiadau o ansawdd da o anghenion unigol fod wedi adnabod y plant hyn fel na fyddai'n rhaid iddynt fynd drwy ddifrod lleoliadau oedd wedi methu. Mewn nifer o achosion, dywedodd gweithwyr TTI a gweithwyr cymdeithasol wrthym fod gan y plentyn hanes a fyddai'n dangos anawsterau o ran cynnal mathau arbennig o lety ac roeddent wedi gwybod y byddai'r lleoliad nesaf yn methu. Gwelsom nifer fach o achosion lle roeddem yn teimlo y dylai'r defnydd o lety diogel i amddiffyn y plentyn fod wedi cael ei ystyried.

Cynllunio wrth gefn

Yr elfen wannaf o ran arfer oedd cynllunio wrth gefn. Gwelsom lawer o dystiolaeth o hyn mewn unrhyw rai o'r awdurdodau lleol a arolygwyd gennym.

Cafodd hyn effaith wirioneddol ar blant. Yn rhy aml, roeddent yn diweddu mewn lleoliadau brys (llety gwely a brechwast yn aml) lle roedd risgiau cynhenid i'w diogelwch. Roedd rhai methiannau yn hollol ragweladwy a hyd yn oed yn ddisgwyliedig. Mewn trafodaethau gyda TTI a gweithwyr cymdeithasol, dywedwyd wrthym sawl gwaith bod ymddygiad yn dirywio, bod rhybuddion wedi cael eu rhoi a'u bod yn credu ei bod yn anochel y byddai'r plentyn yn cael ei droi allan. Pan ofynnwyd beth oedd y cynllun pe bai hyn yn digwydd, dywedwyd wrthym y byddent wedyn yn 'mynd yn ôl at y panel lleoli' neu y byddent yn 'ystyried dychwelyd i ofal preswyl'. Gwelsom ormod o achosion lle cafodd plant eu rhoi mewn llety anniogel wrth i brosesau ddigwydd a allai fod wedi cael eu cyflwyno yn llawer cynharach. Gallai, ac fe ddylai, rhai o'r 'argyfyngau' hyn fod wedi eu hosgoi.

Enghraifft o arfer: Canlyniad peidio â bod â statws Derbyn Gofal a chynllunio wrth gefn gwael

Roedd Jack yn destun cynllun amddiffyn plant pan wnaeth ei lys-dad, a oedd yn camddefnyddio alcohol, ei daro gyda photel win. Roedd Jack hefyd yn cael anawsterau gydag alcohol ac roedd wedi ymweld â'r ysbyty 3 gwaith yn ystod y 12 mis blaenorol oherwydd defnydd trwm. Roedd y teulu wedi bod yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant am nifer o flynyddoedd. Ym mis Mawrth 2015, pan oedd Jack yn 17 mlwydd oed, nid oedd ei fam mwyach yn fodlon iddo fyw gartref a chafodd ei letya, i ddechrau mewn gwely a brecwast, ac yna mewn hostel. Roedd yn gweithio gyda'r TTI o dan orchymyn llys ac roedd ei reolwr achos wedi anfon sylwadau aflwyddiannus at y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn nodi y dylai gael ei wneud yn un a oedd yn Derbyn Gofal.

Wrth i Jack nesu at ei 18 oed, roedd yn amlwg i bawb oedd yn gysylltiedig ag ef bod ei leoliad yn chwalu, ond nid oedd unrhyw gynlluniau wrth gefn. Ar adeg yr arolygiad, roedd gorchymyn llys Jac wedi dod i ben, roedd wedi cael ei droi allan o'i lety ac fe wnaeth ei weithiwr cymdeithasol gau ei achos ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

Yr un diwrnod, bu'n rhaid iddo gyflwyno ei hun, fel oedolyn, i dîm digartrefedd yr awdurdod lleol.

Enghraifft o arfer: Y gwahaniaeth a wneid gan gynllunio wrth gefn

Mewn un achos cafwyd bod diffyg cynllunio wrth gefn wedi cyfrannu at argyfwng a chyfnod diangen yn y carchar i blentyn a oedd yn amlwg yn dangos arwyddion o drallod difrifol.

Yn 2014, pan oedd Bernard yn 16 mlwydd oed, anfonwyd ei fam i'r ysbyty yn dilyn strôc difrifol. Ym mis Medi y flwyddyn honno, daeth yn gysylltiedig â'r TTI ac ym mis Rhagfyr, ymddangosodd yn y llys yn dilyn trais tuag at ei dad. O ganlyniad i orchymyn ataliol ni chaniatawyd iddo fynd adref.

Lleolwyd Bernard mewn llety gwely a brecwast gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac, yn ystod y pedair wythnos nesaf, bu mewn 3 gwesty gwely a brecwast gwahanol ac mewn hostel ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed. O ganlyniad i dorri un o fân amodau ei fechnïaeth, fe'i hanfonwyd i'r ddalfa am dri diwrnod. Pan gafodd ei ryddhau, cafodd ei roi yn ôl yn yr hostel. Aeth Bernard ar goll sawl gwaith a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty ar nifer o achlysuron o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, gan ddioddef trawiad ar y galon un tro.

Ym mis Mehefin 2015 newidiodd pethau.

Dyrannwyd gweithiwr cymdeithasol newydd i Bernard. Cafodd ei ailasesu a chynhaliwyd cyfarfod strategaeth a ddilynwyd gan waith cynllunio rhagorol a wellodd y canlyniadau'n sylweddol.

Gan fod Bernard ar goll y pryd hwn, rhoddwyd cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer yr adeg pan fyddai'n cael ei ganfod. Cyhoeddwyd gwarant a phan ymddangosodd yn y llys llwyddodd y gweithiwr cymdeithasol a'r gweithiwr TTI i gyflwyno gwybodaeth a chynlluniau manwl gerbron y Barnwr Rhanbarth.

Rhoddwyd Bernard mewn uned ddiogel ar sail llesiant am 72 awr i'w sefydlogi. Yna cafodd ei symud i leoliad therapiwtig lle'r ymsefydlodd yn dda a lle'r ymatebodd i'r gwaith a'r amgylchedd. Yn y cyfamser, gwnaed gwaith gyda'i dad i gynllunio iddo ddychwelyd i'w gartref yn y pen draw. Gwnaed cynlluniau manwl iddo ddychwelyd adref, gan gynnwys cymorth ar gyfer ei dad drwy asiantaethau eraill. Cafodd y gorchymyn atal ei ddirymu ac ym mis Awst 2015, aeth adref. Ym mis Tachwedd (ar adeg yr arolygiad) yr oedd wedi setlo gartref gyda'i dad, roedd yn ymwneud yn dda â'i weithiwr cymdeithasol, roedd wedi dod o hyd i swydd ran-amser iddo'i hun ac yn ddiweddar roedd wedi dechrau gweld ei fam.

Adsefydlu

Mae rhai o'r plant y buom yn arolygu eu hachosion wedi treulio amser yn y ddalfa gan arwain at rwystrau ychwanegol i ddod o hyd i lety addas. Mae gan Dimau Troseddau Ieuenctid gyfrifoldebau penodol dros gynllunio a chefnogi plant yn y ddalfa ac am eu goruchwyllo ar ôl eu rhyddhau, ond dyletswydd y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yw dod o hyd i lety addas.

I rai, nid oedd eu llety ar ôl eu rhyddhau yn sicr ac roedd angen rhoi cynlluniau ar waith. Nid oedd hyn bob amser yn cael ei wneud yn ddigon da ac nid oedd plant bob amser yn gwybod lle byddent yn byw hyd nes byddai'n llawer rhy hwyr. Achosodd hyn bryder ac roedd yn gwneud cynllunio ar gyfer cymorth arall neu addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl.

Enghraifft o arfer: Canlyniad ymarfer adsefydlu gwael

Ni chafodd Lonnie, Plentyn oedd yn Derbyn Gofal 17 oed yn Ne Lloegr, wybod tan dri diwrnod cyn ei ryddhau lle roedd yn mynd i fyw. Fe wnaeth hyn achosi cryn bryder iddo ac amharwyd ar ei waith paratoi ar gyfer ei ryddhau. Fel y digwyddodd pethau roedd y llety ar ei gyfer yn lleoliad y tu allan i'r awdurdod yng Ngogledd Lloegr ac aeth ar goll bron ar unwaith.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, gwelsom rai arferion adsefydlu da lle roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod plant yn gwybod lle y byddent yn byw o fewn amserlen resymol, ac mewn rhai achosion, roeddent yn gallu dychwelyd i leoliad blaenorol.

Enghreifftiau o arfer da: Arfer adsefydlu cefnogol a rhagweithiol

Yn Hartlepool gwelsom gynllunio ar gyfer adsefydlu yn dechrau ar gychwyn gorchymyn cadw a hyfforddi (DTO) 18 mis Brian. Nid oedd ganddo unrhyw gysylltiad teuluol o unrhyw fath. Cyn iddo fynd i'r ddalfa, roedd wedi bod yn byw yn hapus mewn llety gyda chefnogaeth yr oedd yn ei ddisgrifio "*fel teulu*".

Er y byddai Brian yn 18 oed cyn iddo gael ei ryddhau, roedd yn un oedd yn gadael gofal (gan ei fod wedi bod yn blentyn oedd yn Derbyn Gofal) ac felly roedd ganddo hawl i gefnogaeth. Roedd nifer o weithwyr proffesiynol yn bwriadu ymweld ag ef yn rheolaidd pan oedd yn y ddalfa, yn ychwanegol at y gofynion cyfreithiol i gydnabod ei ddiffyg teulu. Y bwriad oedd iddo ddychwelyd i'w leoliad blaenorol.

Roedd Tom wedi cael ei osod mewn ysgol breswyl ym mis Awst 2014, ac roedd yn astudio ar gyfer ei arholiadau TGAU pan cafodd ei ddedfrydu i Orchymyn Cadw a Hyfforddi 12 mis. Talodd yr awdurdod lleol (Norfolk) i gadw'r lleoliad ar agor i Tom ddychwelyd iddo, a dyna a wnaeth. Safodd ei arholiadau TGAU pan oedd yn y ddalfa.

Mae gan Rashad, 17 oed, gefndir teuluol cythryblus, hanes o redeg i ffwrdd o ofal a lleoliad yn chwalo oherwydd ei ymddygiad aflonyddgar. Roedd ei weithiwr cymdeithasol a rheolwr achos y TTI yn Enfield wedi gweithio'n galed i ddod o hyd i leoliad iddo mewn ardal ymhell oddi wrth y gangiau roedd yn cymdeithasau â nhw ond o fewn cyrraedd ei fam a'i frodyr a chwiorydd. Pan oedd yn y ddalfa, nodwyd cartref gofal a threfnwyd ymweliadau fel y gallai'r staff gwrdd ag ef cyn ei ryddhau. Cafodd hyn ei werthfawrogi'n fawr gan Rashad a deimlai, o ganlyniad, fod ganddynt well dealltwriaeth o'i anghenion. Cafodd ei ryddhau i'r llety a setlodd yn dda. Pan aildroseddodd, cafodd y lleoliad ei gadw ar ei gyfer am 69 diwrnod fel y byddai ef yn gallu dychwelyd ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa.

Ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, canfuom enghraifft o ddarpariaeth a chefnogaeth dda i Melvin oedd yn 18 oed oedd â hawl i wasanaethau gadael gofal.

Roedd Melvin wedi bod ar orchymyn gofal llawn ers 2011 ac roedd wedi cael nifer o leoliadau. Ym mis Hydref 2014, pan oedd yn 17 mlwydd oed, cafodd ei ddedfrydu i wyth mis yn y ddalfa. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd ei reolwr achos TTI a'i weithiwr cymdeithasol wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer ei lety a'i gefnogaeth ar ôl ei ryddhau. Roedd wedi cael gwybod ym mis Rhagfyr lle y byddai'n byw ar ôl ei ryddhau'r Chwefror canlynol. Roedd ei anghenion emosiynol wedi cael eu hasesu a'u hystyried; cafodd ei ryddhau i leoliad ar gyfer un person gyda chymorth 24 awr. Rhoddwyd llawer o feddwl hefyd i'r dewis o aelod staff ac roedd yn fwy sefydlog yn y lleoliad nag yr oedd wedi bod yn unrhyw le arall.

Mae rhai rhanbarthau yn Lloegr wedi sefydlu consortia adsefydlu gyda chymorth grantiau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwaith adsefydlu ar gyfer plant yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau. Dywedwyd wrthym gan Swydd Nottingham, rhan o Gonsortium Dwyrain Canolbarth Lloegr, eu bod wedi defnyddio rhywfaint o'u grant i gadw llety am gyfnod byr cyn i bobl ifanc gael eu rhyddhau.

Canlyniadau

Lle mae plant wedi cael eu rhoi mewn llety addas, gyda chefnogaeth, roedd yn amlwg eu bod yn gallu manteisio ar y cymorth a ddarperir a symud ymlaen tuag at annibyniaeth.

Ond o blith y plant y gwnaethom ni arolygu eu hachosion, dim ond dau o bob tri oedd yn yr hyn yn ein barn ni oedd yn llety addas a hyd yn oed wedyn, roeddent yn aml wedi profi llety anaddas neu yn yr achosion gwaethaf, llety anniogel ar y ffordd. Nid oedd bron i un o bob tri wedi setlo yn eu llety ac nid oedd anghenion diogelu un o bob pedwar wedi eu diwallu.

Ar adeg yr arolygiad, roedd bron i ddau o bob tri o'r plant yr oeddem wedi archwilio eu hachosion yn cael eu lletya, neu wedi cael eu lletya o dan adran 20 *Deddf Plant 1989* neu destun gorchymyn gofal. Roedd gwahaniaeth amlwg yn ansawdd y llety a gawsant. Barnwyd bod tri chwarter ohonynt mewn llety addas, ac wedi setlo, ond roedd hyn yn wir mewn dim ond hanner y rhai heb y statws hwnnw. Ymhellach, barnwyd bod pedwar allan o bump a oedd naill ai wedi eu lletya o dan adran 20 neu'n destun gorchymynion gofal wedi cael eu hanghenion diogelu wedi eu diwallu, a'r gyfran ar gyfer y rhai heb y statws hwnnw oedd ychydig dros hanner.

Yn hanner yr achosion a arolygwyd gennym, roeddem yn barnu bod y llety yn cyfrannu at helpu plant i roi'r gorau i droseddu trwy ddarparu amgylchedd mwy sefydlog a chefnogol lle roedd disgwyl iddynt gadw at reolau a lle'r oedd disgwyliadau ynghylch eu hymddygiad. Yn yr achosion hynny, roedd y niwed posibl yr oeddent yn ei achosi i eraill yn cael ei reoli hefyd.

Yn hanner arall yr achosion, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y llety yn helpu plant i roi'r gorau i droseddu nac wedi cyfrannu at reoli risg yn dda. Nid oedd yn bosibl penderfynu ar yr effaith ar blant o fyw ochr yn ochr ag oedolion a oedd hefyd yn troseddu ond roeddem yn barnu na allai fod yn gadarnhaol.

Roedd risgiau uniongyrchol llety anaddas a/neu anniogel yn amlwg mewn llawer o'r achosion a adolygwyd gennym, yn enwedig risg o niwed *gan* bobl eraill yn y llety ac *i* bobl eraill yn y llety. Roedd y canlyniadau yn amlwg hefyd: lleoliadau yn chwalu, methu symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant, ac unigedd ac unigrwydd.

Nid oedd yn bosibl mesur effaith tymor hir, ehangach y diffyg llety addas a diogel i blant ond roedd yn anodd gweld sut y gallai'r profiadau hyn gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol neu at leihau aildroseddu.

Casgliad

Roedd y lleoliad llwyddiannus a darparu cefnogaeth effeithiol yn ddibynnol ar asesiad o ansawdd da o holl anghenion y plentyn, nid dim ond yr angen ymarferol am lety. Yn rhy aml, gwelsom asesiadau annigonol neu rai a arweinid gan adnoddau ac yn yr achosion gwaethaf, dim asesiad o gwbl.

Roedd hyn yn peri llai o broblemau mewn achosion llai cymhleth a/neu mewn ardaloedd lle roedd y ddarpariaeth yn dda, gyda chefnogaeth fewnol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, roedd hyn yn gadael plant wedi eu cartrefu'n annigonol, heb gefnogaeth neu hyd yn oed yn anniogel.

Roedd y penderfyniad ynghylch pa lety i'w ddarparu a'r gefnogaeth i fynd gyda ef yn ei gwneud yn ofynnol i staff gydnabod anghenion unigol ac emosiynol pob plentyn, ac i ddeall bod y rhan fwyaf yn parhau i fod angen rhianta o ryw fath.

Roedd absenoldeb cynllunio wrth gefn yn wendid go iawn. Roedd absenoldeb hyn yn ei gwneud yn anochel bod mwy o blant yn diweddu mewn llety brys gyda'r holl ansicrwydd a pherygl posibl yr oedd hynny'n ei olygu.

Ar gyfer y nifer fach o blant yn y ddalfa nad oedd ganddynt lety sefydlog ar gyfer pan fyddent yn cael eu rhyddhau, roedd angen i'r asesiad oedd yn ofynnol gan ddyfarniad Southwark ddechrau'n gynnar yn eu dedfryd, i fod yn sail ar gyfer cynllunio llety ac atal digartrefedd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Ar y cyfan, roedd gwahaniaeth amlwg yn addasrwydd y llety a ddarparwyd i'r plant hynny a oedd naill ai yn cael eu lletya o dan adran 20 *Deddf Plant 1989* neu a oedd yn destun gorchymynion gofal ac i gyfarfod â'u hanghenion diogelu.

5. Gwaith partneriaeth y TTI

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu cyfraniad y TTI i gefnogi pobl ifanc ddigartref 16 a 17 oed.

Canfyddiadau allweddol

- At ei gilydd, roedd rheolwyr achos TTI, gweithwyr llety a staff eraill y TTI yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gefnogi plant.
- Lle roedd TTI yn cymryd rhan, rheolwyr achos yn aml oedd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn cael y cysylltiad mwyaf rheolaidd â phlant ac a oedd, felly, mewn sefyllfa i wneud cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith i gefnogi llety.
- Nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant bob amser yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r sgiliau a oedd gan y TTI ac nid oeddent bob amser yn eu cynnwys yn llawn fel partneriaid, er anfantais i sicrhau canlyniadau cadarnhaol gan y plant.

Prif rôl y TTI yw lleihau aildroseddu. Mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd i amddiffyn y cyhoedd rhag y risg o niwed y gallai plentyn ei beri. Lle mae plant yn ddigartref neu mewn llety anaddas/annogel, mae angen i reolwyr achos weithio'n agos gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac asiantaethau eraill gan mai nhw yn aml yw'r swyddogion proffesiynol sydd â'r mwyaf o gyswllt.

Gwelsom waith partneriaeth da, a rhywfaint o waith ardderchog gan reolwyr achos TTI â gweithwyr proffesiynol eraill yn ymdrin â materion llety, yn aml gan ddarparu'r gefnogaeth nad oedd asiantaethau eraill yn ei gynnig. Yn y TTI mwyaf effeithiol, roedd rheolwyr achos yn deall bod llety sefydlog a chefnogol yn rhagofyniad i sicrhau bod unrhyw ymyriadau ynghylch ymddygiad troseddol yn llwyddiannus ac roeddent yn cymryd rhan lawn mewn gwaith ar y cyd gyda gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi'r plentyn. Ond mewn rhai TTI roedd y gwaith hwn yn fwy amrywiol, yn dibynnu ar reolwyr achos unigol ac ar y gweithwyr eraill. Er bod rheolwyr achos TTI yn aml yn dadlau ar ran plant ac yn herio penderfyniadau a wnaed gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, nid oedd eu llais yn cael ei glywed bob amser.

Enghraifft o arfer da: Canolbwyntio ar anghenion ehangach plentyn

Roedd TTI Blaenau Gwent a Chaerffili yn cyflwyno dull gwell o reoli achosion cymhleth, a oedd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Dan arweiniad seicolegydd, roedd tîm o ymarferwyr yn cael eu cefnogi dros amser i arwain plant tuag at newid eu hymddygiad a symud ymlaen rhag troseddu. Mae'r dull hwn wedi helpu gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar ymgysylltu ac ymdrin ag anghenion y rhoddir blaenoriaeth iddynt, megis llety, fel rhagflaenydd i ymdrin â'u hymddygiad troseddol.

Enghraifft o arfer da: Gwasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth briodol i anghenion plant

Ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, gwelsom y defnydd o staff y TTI yr oedd eu rôl penodol ac ymroddedig yn cynnwys cyfarfod a threulio amser gyda phlant a'u helpu i integreiddio i'w cyfleusterau cymunedol lleol. Roedd yr ymyriadau yn canolbwyntio ar weithgareddau a oedd yn gynaliadwy ar ôl i gyfranogiad y TTI ddod i ben. Roeddent yn cael eu cynnig ar wahân i'r gwaith ar ymddygiad troseddol oedd yn cael ei gyflawni gan reolwyr achos ac yn hyrwyddo ffordd arall, gadarnhaol o gael plant i dreulio eu hamser rhydd. Roedd gweithgareddau yn amrywio o fynd am dro anffurfiol, i ddi-ddordebau mwy trefnus megis defnyddio cyfleusterau chwaraeon.

Mewn un TTI, roedd dau weithiwr llety dynodedig a oedd yn wybodus, yn brofiadol ac yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau i blant. Roedd gan reolwyr achos y TTI lai o ran yn y gwaith ac nid oeddent yn cymryd golwg holistig ar anghenion y plentyn, gan fethu â deall yn iawn pan oedd yn briodol cyflawni gwaith ar ymddygiad troseddol a phryd yr oedd anghenion eraill yn ei gwneud yn annhebygol y byddai'r plentyn yn gallu canolbwyntio'n effeithiol ar hyn.

Roedd TTI yn cael eu cynnwys yn llai aml yn yr asesiad o anghenion llety a'r camau cynllunio, a oedd yn cael eu cynnal i raddau helaeth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Yn rhy aml, nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn cydnabod sgiliau gweithwyr TTI ac nid oeddent yn cyfeirio at y rheolwr achos am fewnbwn. Roedd hwn yn hepgoriad gwirioneddol mewn achosion lle'r oedd cyfranogiad sylweddol gan y TTI a gallai gael effaith andwyol.

Nid oedd asesu a rheoli'r risg o niwed yr oedd plant yn ei beri i bobl eraill, un o gyfrifoldebau allweddol y TTI, yn cael ei ddeall bob amser neu nid oedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant bob amser yn pwysu arno. Nid yw'r TTI bob amser yn ddigon rhagweithiol wrth sicrhau bod eu hasesiadau yn cael eu hystyried. Lle roedd y gwrthwyneb yn wir, gwelsom enghreifftiau o rannu gwybodaeth a chydweithio da a oedd er budd y plentyn ac er budd eraill yr oedd y plentyn yn byw gyda nhw.

Mewn rhai achosion, fodd bynnag, yn enwedig lle roedd y plentyn wedi treulio amser yn y ddalfa, y TTI oedd y brif asiantaeth wrth wneud yn siŵr bod y plentyn yn cael ei leoli'n briodol.

Enghraifft o arfer da: Gwaith TTI integredig effeithiol i amddiffyn plant eraill

Derbyniodd Seth ddedfryd dan glo am gyhuddiadau difrifol o gamfanteisio rhywiol ar ferch 15 oed. Ar ôl ei ryddhau, roedd i fod i gael ei osod mewn lleoliad ar gyfer un person gyda chefnogaeth staff am 24 awr. Ar y diwrnod rhyddhau nid oedd y darparwr yn gallu lletya Seth yn ôl y bwriad a lleolwyd ef mewn adeilad aml-ddeiliadaeth lle roedd merched a aseswyd fel rhai oedd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol yn byw hefyd. Ymwelodd gweithiwr TTI Norfolk â Seth yr un diwrnod a sylweddolodd ar unwaith beth oedd y risg. Cysylltodd â'r darparwr a gofalodd fod Seth yn cael ei symud yn gyflym.

Mewn achosion eraill, gwelsom y TTI yn bod yn asiantaeth a helpodd i arbed y plentyn rhag cael ei droi allan.

Enghraifft o arfer da: Gwaith TTI gyda darparwr llety i helpu i atal troi rhywun allan

Fe wnaeth rhieni Dennis ysgaru pan oedd yn bedair oed. Roedd wedi byw gyda'i fam nes iddi dweud wrtho am adael y cartref teuluol ychydig cyn ei ben-blwydd yn 17. Aeth i aros gyda'i dad am gyfnod byr cyn symud i hostel. Yn ystod y cyfnod hwn, ar ôl gadael cartref, y bu i Dennis droseddu. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, torrodd Dennis amodau ei fechniaeth a chafodd ei gadw yn y ddalfa ar ôl hynny am dri diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn canfuwyd lleoliad newydd i Dennis oedd â chefnogaeth 24 awr.

Dair wythnos ar ôl symud i mewn, derbyniodd Dennis orchymyn atgyfeirio. Erbyn yr amser y dechreuodd TTI Blaenau Gwent a Chaerffili weithio gyda Dennis roedd mewn perygl o golli'r llety hwn gan nad oedd wedi gwneud cais am unrhyw fudd-dal tai. Roedd ar ôl gyda'i rent ac yn agos at gael ei droi allan. Gweithiodd rheolwr achos y TTI a gweithwyr allweddol y llety (Llamau) i sicrhau bod Dennis yn gallu aros yn ei lety, lle roedd yn teimlo'n gysurus. Helpodd y TTI Dennis i roi trefn ar ei fudd-daliadau, a chaniatawyd iddo aros. Gyda llety Dennis yn sefydlog, yna helpodd y TTI ef i gael ei dderbyn ar gwrs hyfforddi.

Casgliad

Nid yw darparu llety yn rhan o gylch gwaith y TTI. Ond y mae ganddynt sgiliau gwerthfawr i'w cyfrannu at waith ar y cyd gyda gwasanaethau a darparwyr gofal cymdeithasol i blant, i helpu

plant gyda phroblemau llety. Yn aml, roedd gan reolwyr achosion TTI gyswllt mwy rheolaidd na gweithwyr cymdeithasol, ac felly roedd ganddynt well cyfle i ddod i adnabod ac ymgysylltu â'r plentyn. Mae asesu a rheoli unrhyw risg y mae plentyn yn ei beri i bobl eraill yn rhan o'u busnes craidd.

Lle roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn cydnabod gwerth a sgiliau'r TTI, a lle'r oedd llwybr atal digartrefedd effeithiol ar waith, roedd partneriaeth dda yn bodoli rhwng gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr achos TTI ac asiantaethau eraill. Gyda rhai eithriadau, roedd rheolwyr achos Timau Troseddau Ieuencid a gweithwyr llety TTI yn adnabod y plant yn dda, yn gweithio'n galed i ennyn eu diddordeb ac yn gweithio gyda materion llety. Roeddent yn deall ei fod yn flaenoriaeth ac yn canolbwyntio arno, lle roedd angen.

At ei gilydd, roedd TTI yn gwneud cyfraniad gwerthfawr yn y maes gwaith hwn.

6. Llywodraethu a goruchwylio

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r strwythurau lleol a chenedlaethol sy'n sail i ac yn monitro'r ddarpariaeth llety a gwasanaethau cymorth i bobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed sy'n hysbys i'r Timau Troseddau Ieuencid.

Canfyddiadau allweddol

- Yn lleol, roedd diffyg data ystyrion ar gael er mwyn deall graddau'r anghenion a'r ddarpariaeth leol o ran llety a chefnogaeth.
- Nid oedd fawr o fonitro ar ansawdd y llety a dim craffu annibynnol.
- Roedd goddefgarwch tuag at y defnydd o lety argyfwng anaddas a/neu anniogel.
- Yn genedlaethol, roedd diffyg tebyg o ddata ystyrion a monitro gweithredol.
- Nid oedd unrhyw sancsiynau ar gyfer awdurdodau oedd yn methu â chadw at ganllawiau cenedlaethol ynghylch llety addas.

Llywodraethu lleol a goruchwylio

Roedd gwasanaethau llety a chefnogaeth yn cael eu darparu neu eu comisiynu mewn ffyrdd amrywiol drwy wasanaethau gofal cymdeithasol i blant awdurdodau lleol, cymorth cysylltiedig â thai/comisiynwyr Cefnogi Pobl¹³ a gwasanaethau tai.

Ni wnaeth pob comisiynydd weithio gyda'i gilydd yn lleol, deall anghenion ehangach plant digartref na monitro'r ddarpariaeth yn dda. Lle roedd comisiynwyr yn gwneud gwaith gyda'i gilydd (yn enwedig o gwmpas 'ymyl clogwyn' y deunaw oed) a lle roedd anghenion wedi'u deall, lle roedd llety a chymorth wedi eu comisiynu yn unol â hynny, a darpariaeth wedi ei monitro, roedd y canlyniadau o ran llety yn well.

Mewn rhai mannau, nid oedd comisiynwyr nac uwch reolwyr wedi ymweld â'r llety oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y plant hyn, er nad oedd wedi cael ei gofrestru na'i reoleiddio gan Ofsted. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw un yn gwirio addasrwydd, gan gynnwys ansawdd a diogelwch, y lleoliadau hyn.

Roedd data a gwybodaeth ddefnyddiol yn brin bron ym mhob man. Roedd monitro yn cael ei gyfyngu i'r data oedd yn ofynnol gan adrannau'r llywodraeth. Yng Nghymru, roedd y rhaglen Cefnogi Pobl wedi parhau i gael ei hariannu drwy grant wedi'i neilltuo drwy Lywodraeth Cymru, gydag atebolrwydd a monitro clir yn eu lle. Gallai hyn fod wedi cyfrannu at ansawdd da y llety a gefnogir a oedd ar waith yng Nghymru. Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, yn y ddwy wlad, nid oedd fawr i ddangos tystiolaeth ynghylch lefel yr angen lleol neu ganlyniadau, llwyddiannus neu fel arall. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi dechrau casglu a choladu gwybodaeth ond nid oedd yn cael ei defnyddio'n effeithiol yn unrhyw le.

Yn fwy o destun pryder oedd y ffaith na welsom dystiolaeth o unrhyw graffu lleol annibynnol ar wasanaethau i blant digartref. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi gofyn erioed am y llety ar gyfer pobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed, hyd yn oed lle roedd llety anniogel yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Nid oedd unrhyw un yn gofyn cwestiynau, er enghraifft, ynghylch nifer y lleoliadau wedi methu yr oedd rhai plant wedi'u profi a beth y

¹³Cafodd y rhaglen Cefnogi Pobl ei lansio yn 2003 fel grant wedi'i neilltuo i awdurdodau lleol a fwriadwyd i ariannu gwasanaethau i helpu pobl agored i niwed fyw'n annibynnol. Yn 2009, tynnwyd y cyfyngiadau oddi ar y grant gan ganiatáu i bob awdurdod lleol wario eu dyraniad Cefnogi Pobl fel yr ystyrient yn briodol.

gellid ei wneud i wella'r sefyllfa honno, neu faint o blant oedd yn cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast neu hosteli ac am ba hyd.

Roedd byrddau rheoli Timau Troseddau Ieuencid yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am addasrwydd llety i blant ar eu llwyth achosion (oedd yn orfodol yng Nghymru fel dangosydd perfformiad allweddol ond ar sail wirfoddol yn Lloegr). Nid oedd fawr o wybodaeth am yr hyn oedd **addas** yn ei olygu mewn gwirionedd, fodd bynnag, ac nid oedd y data yn cael ei archwilio nac yn cael ei graffu arno; roedd fel arfer yn cael ei dderbyn yn gyffredinol yn ddi-gwestiwn.

Roedd goddefgarwch gan uwch reolwyr lleol ynghylch defnyddio llety anniogel.

Llywodraethu cenedlaethol

Roedd absenoldeb data allweddol yn cael ei ailadrodd ar lefel genedlaethol ac felly, roedd gwneud dadansoddiad ystyrion o'r darlun cenedlaethol yn anodd. Yng Nghymru, dywedwyd wrthym bod casglu a choladu data wedi dechrau yn ddiweddar.

Yn Lloegr, roedd yn ofynnol i awdurdodau tai adrodd i'r DCLG yn chwarterol am nifer y plant rhwng 16 a 17 oed a oedd yn cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast ar ddyddiad penodol. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod hyn wedi bod yn allweddol o ran lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast gan awdurdodau tai i letya plant digartref yn sylweddol.

Roedd yna 30 o blant o'r fath ar 30 Medi 2015. Ond mae hyn, fodd bynnag, yn ddarlun anghyflawn, gan nad oes dyletswydd cyfocrog i adrodd i'r Adran Addysg am y rhai a leolid gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Byddai tystiolaeth o'r arolygiad yn dangos bod mwy o blant yn cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant na chan adrannau tai.

Er nad oedd y ffigurau ar gyfer plant oedd yn byw yng Nghymru ar gael yn gyhoeddus ar adeg yr arolygiad, byddai ein canfyddiadau yn dangos bod y cyfrannau yn uwch yng Nghymru. Bydd data am blant a leolwyd mewn llety gwely a brecwast gan awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru o Ebrill 2016. Yn Lloegr, dywedwyd wrthym fod y DCLG ar hyn o bryd yn ceisio cynyddu ei dealltwriaeth ac yn chwilio am ffyrdd o barhau i wella'r sefyllfa bresennol. Ni allem weld bod gan yr Adran Addysg unrhyw rôl barhaus, weithgar mewn gwneud yn sicr bod pobl ifanc 16 a 17 oed nad oedd yn Derbyn Gofal yn cael eu lletya yn ddiogel.

Casgliad

Nid oedd fawr ddim neu ddim craffu annibynnol ar ddarparu llety i rai 16 ac 17 oed yn lleol, na monitro gweithredol yn genedlaethol. Nid oedd data defnyddiol ar gael ar y naill lefel neu'r llall.

Yn genedlaethol, prin oedd y dystiolaeth, naill ai yng Nghymru neu yn Lloegr, fod y maes hwn yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Dywedwyd wrthym gan un cynrychiolydd cenedlaethol fod y sefyllfa "*wedi'i datrys*". Yn ein barn ni, fodd bynnag, er bod gweithgarwch cadarnhaol yn dilyn dyfarniad Southwark wedi cynhyrchu gwelliannau sylweddol, roedd y cynnydd hwn bellach wedi arafu.

Y mater oedd yn peri'r pryder mwyaf oedd y ffaith fod swyddogion ar lefelau uwch yn derbyn y defnydd o lety a oedd yn amlwg yn peri risg o niwed i blant ac nad oedd unrhyw dystiolaeth, mewn rhai manau, o unrhyw gamau i wella'r sefyllfa honno.

Atodiad 1: Canllawiau allweddol


Roedd **Guidance and regulations (of the Children Act 1989) Volume 3: planning transition to adulthood for care leavers (England) Suitable accommodation** yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar ddarparu llety addas i blant perthnasol neu eu cynnal mewn llety addas. Roedd y canllawiau yn cynnwys diffiniad o lety 'addas'. **Ni** ystyrir bod llety gwely a brechwast yn addas ac eithrio ar gyfer amgylchiadau brys eithriadol iawn. Dylai lleoliadau o'r fath gael eu cyfyngu i gyfnod o ddim mwy na dau ddiwrnod gwaith. Dylai awdurdodau lleol sicrhau wrth leoli plant mewn lleoliadau o'r fath eu bod yn derbyn goruchwyliaeth a chyswllt priodol gan yr awdurdod.

Darparodd **Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (yr Adran Addysg bellach) a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol** arweiniad sef **Darparu llety ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed a allai fod yn ddigartref a/neu angen llety 2010** i wasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac awdurdodau tai lleol ynghylch eu dyletswyddau o dan *Ddeddf Plant 1989* a *Deddf Tai 1996* i sicrhau neu ddarparu llety i blant digartref 16 a 17 oed. Mae'n datgan: 'Lle mae person ifanc 16 neu 17 oed yn gofyn am help neu'n cael ei atgyfeirio, ac mae'n ymddangos nad oes ganddo ef neu hi unman diogel i aros y noson honno, yna mae'n rhaid i'r gwasanaethau plant sicrhau llety argyfwng addas ar eu cyfer. Bydd hyn yn golygu y bydd y person ifanc yn dechrau derbyn gofal (o dan adran 20 (1)) tra bydd eu hanghenion, gan gynnwys eu hangen am lety a chefnogaeth barhaus, yn cael eu hasesu ymhellach. Ni ystyrir bod llety gwely a brechwast yn addas ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed, hyd yn oed ar sail llety mewn argyfwng'.

Mae canllawiau'r Adran Addysg yn mynd ymhellach na'r canllawiau cyfrol 3 y cyfeirir atynt uchod mewn perthynas ag addasrwydd llety gwely a brechwast.


Darparodd **Llywodraeth Cymru** arweiniad sef **Darparu llety ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed a allai fod yn ddigartref 2010** ar ddarparu llety addas ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed. Mae'n datgan: 'Mewn llawer o achosion, bydd angen i'r gwasanaethau cymdeithasol i blant a'r gwasanaethau tai fod â chysylltiad â, a darparu gwasanaethau ar gyfer, pobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed'.

Atodiad 2: Llwybr Nottingham



Atodiad 3: Model Llwybr Cadarnhaol

Positive Pathway Model



Positive Pathway Framework: The 5 Service Areas

1 Information and advice for young people and families

The Service: Timely, accurate information and advice about housing options available to everyone, delivered in a range of ways including web-based information and through schools to reach young people, families and professionals.
Desired result: Young people and families are empowered to plan transitions to independent living without support from specialist services. They understand the links between housing choice and their financial end employment situation. They know where to get help if they need it.

2 Early help

The Service: Early intervention targeted to reach households where young people are most likely to be at risk of homelessness, in addition to 1). Delivery involving all local services working with young people and families at risk, e.g. Troubled Families programme, Family Support, Youth Support and Youth Offending Services.
Desired result: Young people stay in the family network where possible and safe and are supported to make planned moves if they need to move out.

3 Integrated response ('hub' or 'virtual hub') and gateway to commissioned accommodation and support

The Service: Led by the Housing Authority and Children's Services, an integrated service for young people who are homeless, at risk of homelessness or need help with planned transitions to independence. Housing options and homelessness prevention services come together, often co-located, with other services including support for pathways into learning and work. Underpinned by assessment and including a needs driven gateway into commissioned supported accommodation and flexible housing related support services. Key data collection point to inform ongoing development of the pathway.
Desired results:

- Homelessness is prevented wherever possible, for example by supporting young people to stay in their family network or preventing the loss of a tenancy.
- Young people who need accommodation and/or support get it, including quick access emergency accommodation and immediate and ongoing support where needed.
- Young peoples' accommodation and support underpins rather than disrupts their pathways in learning and work.

4 Commissioned accommodation and support

The service: A range of accommodation and support options designed for younger and more vulnerable young people. Accommodation and support is linked together in some options, for example supported accommodation, Foyers, supported lodgings and Housing First. Flexible outreach support is also available to support young people wherever they live (including in the family home) and stick with them when they move if needed.
Desired results: Young people gain the stability and skills they need, engage with learning and work and move on to greater independence.

5 Range of Housing Options

The service: A range of safe, decent, affordable housing options, shared and self-contained, in the private, social and third sectors. Where the market doesn't provide sufficiently for young people on low incomes the offer will need to be shaped through local housing strategies, using partnerships to create options. May include creative approaches such as partnerships with learning providers and employers to provide dedicated accommodation that underpins participation in learning and work. Access to flexible outreach support (4) in case young people need it.
Desired results: Young people are economically active and have suitable homes that they can afford - they can build for their future.

Atodiad 4: Geirfa

AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
ACLIL	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
AA	Yr Adran Addysg
GCH	Gorchymyn cadw a hyfforddi: dedfryd o garchar i blant rhwng 12 a 17 oed
APEM	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
BLIDP	Bwrdd Lleol Diogelu Plant: a sefydlwyd ym mhob awdurdod lleol (o ganlyniad i <i>Ddeddf Plant 2004</i>) i gydgyssylltu a sicrhau effeithiolrwydd y gwaith aml-asiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant yn yr ardal honno
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr
Gorchymyn atgyfeirio	Gorchymyn cyfiawnder troseddol statudol a wnaed yn y gymuned
Risg o niwed i eraill	Dyma'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio gwaith i amddiffyn y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio ymyriadau cyfyngol, i gadw i isafswm gyfle'r unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n risg o niwed i eraill
Diogelu	Y gallu i ddangos bod yr holl gamau rhesymol wedi cael eu cymryd i gadw i isafswm y risg o blentyn neu berson ifanc yn cael ei niweidio
TTI / GTI / GCI	Tîm Troseddau Ieuenctid / Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid / Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Atodiad 5: Rôl yr arolygiaethau a chod ymarfer

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith, ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion M3 3FX*

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Cod Ymarfer ar gael ar eu gwefan:

www.cssiw.org.uk/

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith, ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol EM yng Nghymru
Swyddfa Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful, CF48 1UZ*

Ofsted

Mae gwybodaeth am Rôl Ofsted a'r Cod Ymarfer ar gael ar eu gwefan:

<http://www.ofsted.gov.uk/>

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith, ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd ei Mawrhydi dros Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau
Aviation House, 125 Kingsway
Llundain, WC2B 6SE*